



Collaborating · Learning · Succeeding

GwE Gogledd Cymru

Cynnig Proffesiynol 2023-2024





CYNNWYS

CYFLWYNIAD	4
SUT I GOFRESTRU	5
CWRICWLWM AC ASESU	6
CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL	7
IECHYD A LLES	9
DYNIAETHAU	13
IAITH, LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU	15
MATHEMATEG A RHIFEDD	24
GWYDDONIAETH A THECHNOLEG	30
CYMHWYSEDD DIGIDOL	33
CONTINWWM ADDYSG 3-16	41
DYSGU AC ADDYSGU	45
RHWYDWEITHIAU	46
YMCHWIL A GWERTHUSO	48
ADDYSGEG A DYLUNIO DYSGU	49
CYFLAWNI POTENSIAL – HER I BAWB	50
ADDYSG 3-8	51
ÔL-16	53
AGA, SEFYDLU A GYRFA GYNNAR	55
ARWEINYDDIAETH	57
RHAGLENNI DATBLYGU ARWEINYDDIAETH	58
CYNORTHWYWYR ADDYSGU	62
CYMELL A MENTORA	66
YSGOLION FEL SEFYDLIADAU SY’N DYSGU	66
DATBLYGU ARWEINYDDIAETH AR BOB HAEN	68
PROFIAD ADDYSG CADARNHAOL I BAWB	73
Y GYMRAEG	77
Y GYMRAEG MEWN ADDYSG	78
EIN LLAIS NI	82



Yn ystod cyfnod o newidiadau sylweddol a chyffrous ym myd addysg, mae'n hanfodol bod Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE yn cwrdd ag anghenion holl ysgolion y rhanbarth a'r gyfundrefn addysg yn ei chyfanrwydd.

Mae Llywodraeth Cymru am i bob ymarferydd gael mynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd i'w galluogi i ddarparu addysg o safon a phennu dyheadau uchel i bawb. Bydd yr Hawl genedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol (yr Hawl) yn chwarae rhan allweddol yn y daith tuag at gyflawni hyn. Mae hyn yn unol â'r 8 ffactor cyfrannu a amlinellir yn y '[Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd](#)'. Mae'r ffactorau hyn yn disgrifio'r priodweddau allweddol y bydd gan yr ysgolion sy'n llwyddo i wireddu'r cwricwlwm newydd.

Mae'r Fframwaith yn cynnig arweiniad i'r system gyfan ar wella ysgolion. Ynghlwm â'r arweiniad ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, nodir yr angen i ysgolion (o dan oruchwyliaeth cyrff llywodraethu) nodi yn glir yn y Cynllun Datblygu Ysgol ble mae angen cymorth allanol i roi gwelliannau ar waith, ynghyd â phwy fydd yn darparu'r cymorth a phryd. Bydd GwE (ar y cyd ag Awdurdodau Lleol) yn cytuno gydag ysgolion pa gymorth y maent ei angen mewn perthynas â gwella dysgu ac addysgu, arweinyddiaeth, darparu cwricwlwm, datblygiad iaith Gymraeg ac unrhyw faes arall i wella deilliannau i ddysgwyr. Byddwn hefyd yn cefnogi ysgolion i gynnal deialog broffesiynol ac yn hyrwyddo'r gwaith hwn er mwyn datblygu cyd-ddealltwriaeth o asesu a chynnydd dysgwyr ar draws ysgolion y rhanbarth.

Mae'r canllawiau yn nodi y dylai ysgolion ystyried cynnwys cymheiriaid yn y broses hunanwerthuso er mwyn cael safbwynt allanol ar flaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae cydweithio â chymheiriaid yn rhan greiddiol o weledigaeth GwE a byddwn yn hyrwyddo cydweithio a rhwydweithio ar bob haen yn gyson yn ein Cynnig Dysgu Proffesiynol.

Mae Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE wedi'i gynllunio i ymateb i ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru ac i ofynion ysgolion y Rhanbarth a'u rhanddeiliaid. Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol wedi'u seilio'n gadarn ar ganfyddiadau ein prosesau hunan arfarnu a thrwy ymgynghori â phenaethiaid ysgolion a'r Awdurdodau Lleol. Mae'r Cynnig felly yn ymgais i ymateb i beth mae ysgolion wedi gofyn amdano a diwallu blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Wrth gynllunio unrhyw Gynnig Dysgu Proffesiynol, bydd GwE yn sicrhau ein bod yn:

1. Cefnogi Arweinwyr i arwain gwelliannau yn y maes dan sylw;
2. Cefnogi Ymarferwyr i gynnig darpariaeth lawr dosbarth effeithiol;
3. Cefnogi'r system i rannu llwyddiannau a dysgu o'i gilydd.

Mae egwyddorion ein Cynnig wedi'u seilio ar hyrwyddo dysgu a datblygiad proffesiynol ar dair haen:

1. Cefnogaeth benodol a phwrpasol i ysgolion unigol.
2. Cefnogaeth leol drwy glystyrau, cynghreiriau a rhwydweithiau.
3. Cynnig Dysgu Proffesiynol generig sydd ar gael i bawb ar draws y rhanbarth.

Drwy gynnig Dysgu Proffesiynol ar draws yr haenau yma, mae'r Cynnig yn hyblyg i ymateb i anghenion mewn amrywiol ffyrdd:



- Datblygiad Proffesiynol unigol: Ar lefel ymarferwyr unigol, mae dysgu proffesiynol yn canolbwyntio ar dwf a datblygiad ar sail bersonol. Mae'r lefel hon o ddysgu proffesiynol yn golygu bod arweinwyr ac ymarferwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gwella eu sgiliau gyda'r cyfle i fyfyrwyr a chymhwyso o fewn rôl benodol.
- Cydweithio Ysgol i Ysgol: Mae cydweithio ysgol-i-ysgol yn golygu bod arweinwyr ac ymarferwyr o wahanol ysgolion yn dod at ei gilydd i rannu arbenigedd, adnoddau ac arferion gorau. Mae'r lefel hon o ddysgu proffesiynol yn annog cyfnewid gwybodaeth a phrofiad, gan arwain at well dulliau addysgu a gwelliannau ysgol gyfan.
- Cydweithio Clwstwr/Cynghrair/Rhwydwaith: Mae hyn yn ehangu ar gydweithio ysgol-i-ysgol trwy gynnwys ysgolion lluosog o fewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig neu rwydwaith addysgol. Mae'r lefel hon o ddysgu proffesiynol yn annog dull mwy cynhwysfawr o wella addysg ar draws aml sefydliadau.

Byddwn felly yn parhau i gefnogi a datblygu ymhellach y gwaith cydweithio ar draws y continwum 3-16, gan ddyfnhau'r gwaith cymheiriaid sydd eisoes wedi'i sefydlu i adnabod agweddau y gall ysgolion eu cynnig fel datblygiad proffesiynol i ysgolion eraill.

Fel gwasanaeth, rydym yn cynnig hyfforddiant ar sail egwyddorion ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu. Mae'n canolbwyntio ar ddysgu proffesiynol yn seiliedig ar roi cefnogaeth mewn amrywiol ffurf, gan gynnwys rhaglenni dysgu proffesiynol penodol wyneb i wyneb oddi ar y safle, yn rhithiol, drwy fentora a chydweithio ysgol-i-ysgol effeithiol. Mae hyn oll yn hybu arweinwyr ac ymarferwyr i hunan wella a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu proffesiynol eu hunain, ac i gyfrannu at system addysg sy'n hunan wella.

Rhan hanfodol o'r cynnig hwn yw'r model gwerthuso rhanbarthol sy'n dal effaith ac effeithiolrwydd y Dysgu Proffesiynol. Defnyddir yr wybodaeth yma er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu cynnig priodol ac effeithiol i'n holl ymarferwyr, a gwneir gwelliannau a diwygiadau i'r cynnig yn ôl yr angen. Byddwn hefyd yn cynorthwyo ysgolion i werthuso effaith y Dysgu Proffesiynol arfaethedig ar eu hymarfer ac ar ddeilliannau i ddysgwyr, pan fo hynny'n briodol.

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi darlun lefel uchel o'r Dysgu Proffesiynol yn ystod y flwyddyn academiaidd hon er mwyn eich cynorthwyo i adnabod y Dysgu Proffesiynol a fydd angen ar eich ysgolion a'r staff. O bryd i'w gilydd, ychwanegir at y cyfleoedd ychwanegol i'r cynnig hwn a'u nodi ym Mwletin GwE.



COFRESTRU

Mae'n bosib archebu lle ar gyfer unrhyw Ddysgu Proffesiynol drwy 'Bwletin GwE'. Sicrhewch eich bod wedi cofrestru i'w dderbyn er mwyn cael mynediad i gofrestru.

Cwricwlwm ac Aseu





DATBLYGU'R CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL – SESIYNAU RHITHIOL TRAWS-RANBARTHOL

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol o bob sector
Disgrifiad:	Cyfle i gydweithio a chymryd rhan mewn deialog broffesiynol gyda chydweithwyr ar draws y rhanbarth a Chymru er mwyn datblygu darpariaeth y Celfyddydau Mynegiannol.
Dau sesiwn rithiol:	• Cynllunio ar gyfer dilyniant (16 Tachwedd 2023) • Dysgu ac addysgu (2 Gorffennaf 2024)
Deilliannau:	Datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gynnwys MDaPh y Celfyddydau Mynegiannol drwy: • Ymgysylltu â rhwydweithiau Cenedlaethol MDaPh y Celfyddydau Mynegiannol Cenedlaethol • Mynediad at arferion/enghreiffitiau ymarferol gan ysgolion ledled Cymru.
Dyddiad:	16/11/2023 a 02/07/2024

DATBLYGU'R CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL – DATBLYGU'R DISGYBLAETHAU

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol Cynradd
Disgrifiad:	Sesiynau ar gyfer datblygu pob disgyblaeth o fewn MDaPh y Celfyddydau Mynegiannol (Cerddoriaeth, Celf, Drama, Dawns, Ffilm a Chyfryngau Digidol).
Bydd pob sesiwn yn cynnwys:	• Dadbacio ystyriaethau sy'n benodol i ddisgyblaeth • Dilyniant ar draws pob disgyblaeth • Ymarfer sy'n dod i'r amlwg ym mhob disgyblaeth o fewn MDaPh y Celfyddydau Mynegiannol • Ymarfer sy'n dod i'r amlwg - pob disgyblaeth ar draws y MDaPh.
Deilliannau:	• Datblygu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o brif ystyriaethau am ddisgyblaeth benodol o fewn y Celfyddydau Mynegiannol. • Datblygu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o brif ystyriaethau cynllunio ar gyfer dilyniant ar draws y ddisgyblaeth benodol. • Grymuso prosesau diwygio a gwerthuso darpariaeth gwricwlaidd drwy amrywiol brosesau hunanarfarnu /hunanwerthuso.
Dyddiad:	Mai 2024


DATBLYGU'R CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL – RHWYDWAITH RHANBARTHOL

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr / Arweinwyr Canol / Uwch Arweinwyr
Disgrifiad:	Bydd y Rhwydwaith Celfyddydau Mynegiannol Rhanbarthol yn cyfarfod yn dymhorol er mwyn: • Rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg • Codi ymwybyddiaeth ac atgyfnerthu negeseuon allweddol/unrhyw ddatblygiadau newydd • Sicrhau ymrwymiad aelodau rhwydwaith rhanbarthol/ymarferwyr a gomisiynir i gyfrannu a chefnogi'r system • Cynnig cyfleoedd ar gyfer cydweithio a chyd-adeiladu pellach i bawb sy'n mynychu.
Deilliannau:	• Datblygu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o brif egwyddorion y Celfyddydau Mynegiannol. • Datblygu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o arferion sy'n dod i'r amlwg wrth ddylunio cwricwlwm lleol o fewn y Celfyddydau Mynegiannol.
Dyddiad:	Rhagfyr 2023, Mawrth 2024 a Mehefin 2024

**RHWYDWAITH TRAWS-RANBARTHOL IECHYD A LLES UWCHRADD**

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Ysgolion Uwchradd (gan gynnwys ysgolion Arbennig/UCD)
Disgrifiad:	Cyfle i ymuno â grŵp newydd o arweinwyr uwchradd MDaPh Iechyd a Lles traws-ranbarthol er mwyn rhannu arferion proffesiynol.
	Cynhelir un cyfarfod wyneb yn wyneb pob tymor mewn ysgol letyol ar draws y rhanbarth (Conwy/Sir Ddinbych, Sir y Fflint/Wrecsam, Môn/Gwynedd)
Deilliannau:	Datblygu dealltwriaeth well o'r MDaPh Iechyd a Lles trwy: - Gael gweld enghreifftiau ymarferol a'r arferion gorau gan ysgolion ar draws y rhanbarth - Cydweithio a thrafod yn broffesiynol â chydweithwyr ar draws y rhanbarth - Gwella'r arweinyddiaeth yn y MDaPh gan arwain at godi safonau.
Dyddiad:	Ail hanner tymor yr Hydref

**Gweithdy Rhyngweithiol i Athrawon (oed 3 – 8) MDaPh Iechyd a Lles
'CHWARAE I DDYSGU'**

Addas ar gyfer:	Cynradd (3 - 8)
Disgrifiad:	Bydd y gweithdy rhyngweithiol diwrnod llawn 'Chwarae i Ddysgu' hwn yn arfogi ymarferwyr ac athrawon i gyflwyno gwersi diogel, pleserus a gweithgar er mwyn i ddysgwyr gymryd mwy o ran yn eu dysgu mewn llythrennedd corfforol a gweithgaredd corfforol. Credwn fod annog datblygiad corfforol yn ifanc yn hanfodol i feithrin mwynhad neu chwaraeon gydol oes a chenedl iachach.
	Mae Chwarae i Ddysgu yn cynnwys: - Llyfrau stori llawn dychymyg sy'n annog plant i actio symudiadau creadigol gartref - o neidio tonnau ar lan y môr i ddal wyau'r ddraig - Cardiau sgiliau i helpu plant i ymarfer symudiadau fel neidiau seren, rhedeg a thaflu o dan fraich - Cyfres o 16 gêm hwyliog, sy'n ddelfrydol ar gyfer y grŵp oedran hwn, fel y gall plant roi eu holl sgiliau newydd ar waith
Deilliannau:	- Mae helpu plant i ddatblygu egni a brwdfrydedd dros symud yn rhoi hyder iddynt a dechrau gwych mewn bywyd. Mae'n rhoi sylfaen gadarn i blant allu parhau yn eu taith chwaraeon. - Arddangosiadau a gwersi ymarferol i annog dysgwyr i gymryd mwy o ran yn eu dysgu eu hunain gyda gweithgaredd corfforol a symudiad creadigol - Cydweithio gyda chyfoedion i adeiladu cysylltiadau ar draws ysgolion er mwyn cyfnewid gwybodaeth a sgiliau, a rhannu arfer dda



	Gweithio tuag at adnabod ymarferwyr 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' i weithio gyda chlystyrau yn y dyfodol
Dyddiad:	Cyfrwng Cymraeg: 09/11/2023 a 08/12/2023. Cyfrwng Saesneg: 01/12/2023, 15/12/2023, 12/01/2024 a 19/01/2024.

GWEITHDY RHYNGWEITHIOL I ATHRAWON (OED 8 – 11) MDAPH IECHYD A LLES

Addas ar gyfer:	Cynradd (8 – 11)
Disgrifiad:	Diwrnod llawn sy'n cynnwys 3 adran allweddol sy'n cyfrannu ar ddatblygu unigolion iach a hyderus.
	- Profiadau ystyrlon a chadarnhaol mewn addysg gorfforol - Datblygu sgiliau maeth am oes - Cyflwyniad byr ar sut i ddod a sgiliau digidol i'r MDaPh
Deilliannau:	- Bydd y gweithdy rhyngweithiol hwn yn argofi ymarferwyr ac athrawon i gyflwyno sesiynau diogel, pleserus ac actif - Arddangosiadau a gwersi ymarferol i annog dysgwyr i gymryd mwy o ran yn eu dysgu eu hunain gyda sgiliau gweithgaredd corfforol a sgiliau bwyd a maeth Argymhellion ar gyfer offer ac adnoddau arbenigol i gyflwyno'r gwersi hyn yn eich ysgol a'u rhannu gyda'ch cyfoedion.
Dyddiad:	07/11/2023, 23/11/2023 a 30/11/2023

FFRAMWAITH STRATEGOL AR GYFER LLESIANT EMOSIYNOL A MEDDYLIOL

Addas ar gyfer:	Arweinwyr ysgolion (pob sector)
Disgrifiad:	- Hyfforddiant ar y cyd i gefnogi (Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, GwE) gyda'r Fframwaith Strategol ar gyfer archwiliadau llesiant emosiynol a meddyliol (WSA). - Bydd yr hyfforddiant yn cefnogi ysgolion ar sail eu canfyddiadau a'r prif anghenion a nodir yn rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Deilliannau:	- Bydd gan arweinwyr well dealltwriaeth o'r prif anghenion wrth ddatblygu dull ysgol gyfan i gefnogi llesiant emosiynol a meddyliol disgyblion. - Bydd arweinwyr yn datblygu ymhellach eu harferion wrth gynllunio'n strategol i wella'r prif anghenion.
Dyddiad:	Ail hanner tymor yr Hydref



CYNNIG CENEDLAETHOL

CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN (CCUHP) A CHONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU POBL AG ANABLEDDAU (CCUHPA)

Addas ar gyfer:	Arweinwyr ysgolion (pob sector)
Disgrifiad:	Pecyn dysgu proffesiynol ar-lein drwy Restr Chwarae Hwb ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA):
	• Codi ymwybyddiaeth o Hawliau Dynol Plant, y ddau gonfensiwn a pham eu bod nhw'n bwysig • Codi ymwybyddiaeth o Hawliau Dynol a chysylltiadau â'r cwricwlwm a'r cyd-destun addysgol ehangach yng Nghymru • Rhannu adnoddau i gefnogi ysgolion i ddatblygu dull gweithredu Hawliau Dynol fel thema drawsgwricwlaidd a dull gweithredu integrol ar gyfer pedwar diben y cwricwlwm.
	Modiwlau 1 a 2 ar gael o fis Gorffennaf 2023 a Rhestr Chwarae Modiwl 3 yn barod at Dymor y Gwanwyn 2024.
Deilliannau:	• Dealltwriaeth well o CCUHP a CCUHPA yn y cyd-destun addysgol ehangach. Bydd gan ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth well wrth ddefnyddio adnodd mapio ac archwilio y Comisiynydd Plant i gefnogi'r gwaith cynllunio ar gyfer Hawliau Dynol o fewn y cwricwlwm. • Dealltwriaeth well o arferion sy'n cysylltu Hawliau Dynol â diwygio addysg ehangach gan gynnwys y Cod ADY, dull ysgol gyfan tuag at lesiant emosiynol a meddyliol, canllawiau gwrth-fwlio a chanllawiau diogelu ehangach.
Dyddiad:	

CYNNIG RHANBARTHOL

CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN (CCUHP) A CHONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU POBL AG ANABLEDDAU (CCUHPA)

Addas ar gyfer:	Arweinwyr ysgolion (pob sector)
Disgrifiad:	Sesiwn ranbarthol ar-lein ar CCUHP/CCUHPA sydd ar agor i bob ymarferydd/arweinydd canol/uwch arweinydd gyda'r nod o:
	• Rhannu'r pecyn cymorth a ddatblygwyd gan y consortia ranbarthol i ddatblygu ymwybyddiaeth o fodiwlau ac adnoddau DP. • Rhannu'r arferion sy'n dod i'r amlwg o fewn y ranbarth



	• Cynnig cyfleoedd i bawb sy'n bresennol gydweithio a datblygu ymhellach ar y cyd.
Deilliannau:	Ymarferwyr yn gwella eu dealltwriaeth a'u hymwybyddiaeth o: • Yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi gwaith dylunio'r cwricwlwm. • Yr arferion sy'n dod i'r amlwg wrth ddylunio cwricwlwm lleol gyda CCUHP/CCUHPA.
Dyddiad:	



RHWYDWAITH RHITHIOL Y DYNIAETHAU (UWCHRADD)

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol ac Ymarferwyr Uwchradd (gan gynnwys Arbennig/UCD)
Disgrifiad:	Rhwydwaith rhithiol i athrawon uwchradd y Dyniaethau gael deunyddiau hyfforddiant sydd wedi'u cyhoeddi'n flaenorol.
Deilliannau:	- Datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r negeseuon allweddol cyfredol gan sicrhau tegwch mynediad a chysondeb negeseuon. - Gwella gwybodaeth o negeseuon a rennir gan bartneriaid allweddol, e.e. CYSAG, Llywodraeth Cymru, sefydliadau amgylcheddol a diwylliannol Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol (DARPL).. - Ymarferwyr disgyblaethol 'unigol' i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth drwy ddod i gyswllt ag arbenigwyr disgyblaethol ar draws y rhanbarth.
Dyddiad:	Tachwedd 2023

CYNHADLEDD Y DYNIAETHAU (UWCHRADD)

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol ac Ymarferwyr Uwchradd (gan gynnwys Arbennig/UCD)
Disgrifiad:	- Cynhelir Cynhadledd y Dyniaethau ym mis Hydref/Tachwedd 2023 a fydd yn ymateb i'r anghenion a nodwyd gan ysgolion yn holiadur GwE a gwblhawyd yn yr Haf 2023. - Bydd cyfleoedd i ysgolion weld yr arferion sy'n dod i'r amlwg mewn ysgolion a chysylltu â phartneriaid allanol all gefnogi athrawon y Dyniaethau.
Deilliannau:	Datblygu ymhellach dealltwriaeth a sgiliau i wireddu'r CiG yn effeithiol trwy: - Wella dealltwriaeth o'r MDaPh - Gweld gwahanol ddulliau cynllunio - Astudiaethau achos sy'n disgrifio ymdrechion cynnar i ddal dulliau o fynd i'r afael â chynnydd - Rhannu arferion da â chydweithwyr - e.e. enghreifftiau cynllunio.
Dyddiad:	16/11/2023

6 ASTUDIAETH ACHOS YN EDRYCH AR DILYNIANT YN Y DYNIAETHAU

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Ysgolion Cynradd, Arweinwyr Canol ac Ymarferwyr Uwchradd (gan gynnwys Arbennig/UCD)
Disgrifiad:	Gall ysgolion weld detholiad o chwe Astudiaeth Achos o ysgolion cynradd ar draws y rhanbarth. Astudiaethau achos: - Enghraifft o waith cynllunio athrawon. - Sampl o waith disgyblion sy'n dangos cynnydd. - Esboniad o gyd-destun a'r broses gynllunio. Gwerthusiad gan yr ysgol sydd hefyd yn nodi'r camau nesaf.

Deilliannau:	• Dealltwriaeth well o gynllunio yn y Dyniaethau, e.e. disgyblaethol, cysyniadau, thematig, cwestiynau mawr. • Meithrin hyder a dealltwriaeth o gynllunio yn y Dyniaethau ar draws cwricwlwm ehangach.
Dyddiad:	Pecyn digidol ar gael fis Chwefror 2024



RHWYDWAITH CYDLYNWYR LLYTHRENNEDD

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Uwchradd
Disgrifiad:	Gosodir agenda yn ôl blaenoriaethau lleol, rhanbarthol ac/neu genedlaethol sy'n dod i'r amlwg.
Prif amcanion:	• 'Y Strategaeth 6 Cham – Llythrennedd' • Rhannu diweddariadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol • Datblygu cyd-weithio a rhannu arferion llwyddiannus • Datblygiadau'r Cwricwlwm i Gymru.
Deilliannau:	• Datblygu hyder a gallu cynyddol wrth sefydlu hanfodion 'Strategaeth 6 Cham – Llythrennedd' (GwE) yn llwyddiannus. • Datblygu ymwybyddiaeth gynyddol o sefydlu a gwreiddio 'Strategaeth 6 Cham – Llythrennedd' GwE yn arwain at weithredu strategaeth Llythrennedd ysgol gyfan yn llwyddiannus.
Dyddiad:	Tachwedd 2023, Chwefror 2024, Mehefin 2024

RHWYDWAITH ARWEINWYR Y GYMRAEG YCS [UWCHRADD]

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol Uwchradd
Disgrifiad:	'Y Gymraeg – Dylunio ar gyfer cynnydd' (Cyfres 2023-24) Gosodir agenda yn ôl blaenoriaethau lleol, rhanbarthol ac/neu genedlaethol sy'n dod i'r amlwg.
Prif amcanion:	• Dylunio cwricwlwm ar gyfer y Gymraeg o fewn MdaPh leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu • Gosod y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig yn sylfaen ar gyfer cynnydd • Deall egwyddorion cynnydd a sicrhau dilyniant ieithyddol (continwmm 3-16). Yn ogystal, bydd cyfarfodydd dilynol i Gynghreiriau o Ysgolion gyda phwyslais ar ddatblygu agweddau penodol sy'n deillio o'r Cyfarfodydd Rhwydwaith uchod.
Deilliannau:	• Datblygu hyder a gallu cynyddol wrth gyfoethogi dyluniad cwricwlwm • Datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut i godi safonau dysgu ac addysgu o fewn adran/MdaPh IllaCh a thargedau cynnydd dysgwyr yn eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg.
Dyddiad:	Tachwedd 2023, Chwefror 2024, Mehefin 2024



GWEITHDAI DIGIDOL - 'BE' SY'N BOSIB?'

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr Uwchradd
Disgrifiad:	Cyfres o weminarau yn cynnig hyfforddiant ar ddefnydd o arfau digidol er mwyn dysgu ac addysgu iaith.
Deilliannau:	- Datblygiad cynyddol mewn hyder a gallu o ran sgiliau digidol - Dealltwriaeth gynyddol o sut i gynnig darpariaeth ac addysgeg ddigidol bwrpasol a chyfoes er mwyn datblygu'r Gymraeg yn llwyddiannus.
Dyddiad:	Tymor y Gwanwyn

ARWEINWYR LLYTHRENNEDD CYNRADD

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol Cynradd (8 – 11)
Disgrifiad:	Cyfarfodydd tymhorol lleol a rhanbarthol i Arweinwyr Llythrennedd Cynradd. Gosodir agenda yn ôl blaenoriaethau lleol, rhanbarthol ac/neu genedlaethol sy'n dod i'r amlwg. Pwyslais cyffredinol: - Rhannu'r pecyn Arweinwyr ILlCh/Dull 6 Cham ar gyfer dylunio Strategaeth Llythrennedd. - Rhannu diweddariadau ar ddatblygiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. - Cydweithio a rhannu arferion da sy'n dod i'r amlwg. - Cwricwlwm i Gymru.
Deilliannau:	- Datblygu dealltwriaeth gyfoes o'r negeseuon cenedlaethol allweddol, gan gynnwys gwybodaeth allweddol ar gyfer yr asesiadau personol ar-lein. - Sicrhau mynediad at adnoddau i helpu gyda dylunio cynllun strategol ar gyfer Llythrennedd. - Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i lwyddo i fireinio cynllun strategol ar gyfer llythrennedd a chael mynediad at gymorth i weithredu'n effeithiol.
Dyddiad:	Tachwedd/Rhagfyr 2023, Chwefror/Mawrth 2024 a tymor yr Haf

GWEITHDY ASESU AR GYFER DYSGU GYDA SHIRLEY CLARKE

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr Cynradd (8 – 11)
Disgrifiad:	Gweithdy hyfforddiant gyda Shirley Clarke, yn canolbwyntio ar sut mae defnyddio Asesu ar gyfer Dysgu (AagD) yn effeithiol yn cyfoethogi datblygiad a deiliannau mewn ysgrifennu estynedig.
Deilliannau:	Datblygu dealltwriaeth gynyddol o: - Sut ellir gwreiddio strategaethau asesu ffurfiannol mewn arferion athrawon. - Datblygu strategaethau AagD a bwriadau dysgu clir sy'n cefnogi cynnydd mewn ysgrifennu.



	- Sut i ymestyn ar y sgiliau sylfaenol a'r camau bach mewn sgiliau iaith tuag at ddeilliannau ysgrifennu llwyddiannus i bob dysgwr. - Cynllunio a datblygu'r sgiliau sylfaenol a'r camau bach yn y daith ysgrifennu, gan sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd cyson yn eu gwaith ysgrifennu.
Dyddiad:	13/11/2023

YMARFERWYR CYNRADD (8-11)

Addas ar gyfer:	Gweithdai ysgrifennu estynedig
Disgrifiad:	Gweithdai hyfforddiant i ddatblygu ymhellach y sgiliau sylfaenol a'r camau bach yn ystod y daith ysgrifennu estynedig tuag at wneud cynnydd unigol yn y fframwaith CiG.
Deilliannau:	Datblygu dealltwriaeth gynyddol o: - Sut ellir gwreiddio strategaethau asesu ffurfiannol mewn arferion athrawon. - Datblygu strategaethau AagD a bwriadau dysgu clir sy'n cefnogi cynnydd mewn ysgrifennu. - Sut i ymestyn y sgiliau sylfaenol a'r camau bach mewn sgiliau iaith tuag at ddeilliannau ysgrifennu llwyddiannus i bob dysgwr. - Cynllunio a datblygu'r sgiliau sylfaenol a'r camau bach yn y daith ysgrifennu, gan sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd cyson yn eu gwaith ysgrifennu.
Dyddiad:	13/11/2023

PROSIECT GWELLA RHUGLDER MEWN DARLLEN AR LAFAR (iFOR)

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr cynradd
Disgrifiad:	Er 2018, bu GwE yn gweithio ar y cyd ag ymchwilwyr o'r Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor, i greu cyfres o ymyraethau rhuglder darllen yn seiliedig ar dystiolaeth: Darllen Ailadroddol (RR), a Geiriau Amllder Uchel (HFW). Bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar gyflwyno ein deunyddiau ymyrraeth RR Saesneg a Chymraeg i fwy o ysgolion.
Nodau ac Amcanion	- Hoffem weithio gydag ysgolion i werthuso effaith yr ymyrraeth RR ddiweddar yn sgil cyfnod ymyrraeth 8 wythnos. - Caiff pob ysgol hyfforddiant ac adnoddau ymyrraeth RR yn y Gymraeg a'r Saesneg. - Bydd y tîm ymchwil yn gweithio gyda staff i adnabod dysgwyr targed a chynllunio ar gyfer yr ymyrraeth yn nhymor y Gwanwyn 2024. - Bydd y tîm ymchwil yn helpu ysgolion i gasglu data am gynnydd disgyblion a gwerthuso effaith yr ymyrraeth RR.

Deilliannau:	- Datblygu dealltwriaeth o gyfres o ymyraethau llythrennedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth. - Datblygu sgiliau athrawon ac/neu gymorthyddion dysgu i allu cyflwyno'r ymyraethau yn hyderus. - Datblygu dealltwriaeth well er mwyn manteisio ar gynnig cynhwysfawr o ddeunyddiau cymorth, gan gynnwys y deunyddiau Cymraeg mwyaf diweddar
Dyddiad:	Hyfforddi ym mis Hydref 2023

DARLLEN - RHAGLEN DYSGU IAITH A LLYTHRENNEDD O BELL (RILL)

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr cynradd
Disgrifiad:	Mae RILL yn rhaglen llythrennedd fer wedi'i thargeddu ar gyfer dysgwyr 8-11 oed sydd â'r nod o wella medrau darllen a llythrennedd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n rhaglen addysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar sail y dull Gwyddor Darllen (SoR): RILL Cymraeg (google.com) Yn 2023-24, rydym yn gwahodd ysgolion i weithio gyda ni i ymchwilio i effeithiau buddiol darparu hyfforddiant RILL ychwanegol yn amgylchedd y cartref. Mae hwn yn brosiect cydweithredol rhwng GwE, y Sefydliad Cydweithredol ar gyfer Ymchwil, Tystiolaeth ac Effaith Addysg (CIEREI), Prifysgol Bangor, a Phrifysgol Leeds Trinity.
Nodau ac Amcanion	• Mae ein hymchwil blaenorol gydag ysgolion wedi dangos pwysigrwydd a defnyddioldeb darparu cefnogaeth yn amgylchedd y cartref. • Rydym nawr yn bwriadu datblygu RILL ymhellach trwy ddarparu gwersi y gall plant eu cwblhau gyda rhiant neu ofalwr gartref.
Deilliannau:	• Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfres o ymyraethau llythrennedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth. • Datblygu sgiliau athrawon ac/neu gymorthyddion dysgu i allu cyflwyno'r ymyraethau yn hyderus. • Datblygu dealltwriaeth o ddulliau 'Gwyddor Darllen' (SoR) i wella'r ddarpariaeth ar gyfer darllen, sillafu a llythrennedd yn gyffredinol. • Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gan fanteisio ar ddeunyddiau cymorth cynhwysfawr, gan gynnwys y deunyddiau Cymraeg diweddaraf.
Dyddiad:	Ysgolion detholedig wedi eu gwahodd i weithdau ym mis Medi a Hydref 2023



DATBLYGU A GWERTHUSO DYSGU SILLAFU MEWN DOSBARTHIAU PRIF LIF (DEMSI)

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr cynradd
Disgrifiad:	Mae'r dull Gwyddor Darllen (The Science of Reading) yn disgrifio sgiliau darllen allweddol a sgiliau cysylltiedig sy'n allweddol i ddarllenwyr o bob gallu. Yn y prosiect hwn, bwriadwn werthuso sut ellir rhoi'r dull Gwyddor Darllen ar waith er mwyn dysgu sillafu mewn dosbarthiadau prif lif. Bwriadwn gynnal astudiaeth mewn dau gam i ddatblygu a gwerthuso Dysgu Sillafu mewn Dosbarthiadau Prif Lif i ysgrifenywyr cynnar.
Nodau ac Amcanion	Yn gyntaf, mae'r prosiect DEMSI yn ceisio deall yr arferion dysgu sillafu presennol i ysgrifenywyr cynnar (plant 7 oed) yng Ngogledd Cymru drwy gynnal arolwg rhanbarthol. Yn ail, bwriadwn gynnal peilot o fodel i helpu hyfforddi athrawon i addasu a gwella eu darpariaeth sillafu i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r Wyddor Darllen. Mae'n brosiect ar y cyd rhwng GwE a Phrifysgol Leeds Trinity. - Rydym yn ceisio edrych ar ddichonoldeb ac effeithiolrwydd gweithdai cyd-greu i weithredu cwricwlwm sillafu Gwyddor Darllen yn y Gogledd. - Byddwn yn edrych a ellir gweithredu cwricwlwm sillafu, sydd wedi'i addasu yn erbyn Gwyddor Darllen, yn llwyddiannus gan athrawon dosbarth? Ac, a yw cwricwlwm sillafu sydd wedi'i addasu yn erbyn Gwyddor Darllen, yn gwella deilliannau dysgwyr? - Bwriadwn ddatblygu cyfres o weithdai undydd i athrawon Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3, ochr yn ochr ag athro profiadol sy'n gyfarwydd â Gwyddor Darllen. Bydd y gweithdai yn edrych ar ymchwil cefndirol, cyd-ddatblygu'r cwricwlwm, ac asesu cynnydd mewn sillafu.
Deilliannau:	- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfres o ymyraethau llythrennedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth. - Datblygu sgiliau athrawon ac/neu gymorthyddion dysgu i allu cyflwyno'r ymyraethau yn hyderus. - Datblygu dealltwriaeth o ddulliau 'Gwyddor Darllen' (SoR) i wella'r ddarpariaeth ar gyfer darllen, sillafu a llythrennedd yn gyffredinol. - Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gan fanteisio ar ddeunyddiau cymorth cynhwysfawr, gan gynnwys y deunyddiau Cymraeg diweddaraf.
Dyddiad:	Hyfforddiant ar gyfer ysgolion detholedig ym mis Hydref 2023 a Mai-Mehefin 2024

RHWYDWEITHIAU CARIAD@DDARLLEN

Addas ar gyfer:	Clystyrau
Disgrifiad:	Cefnogaeth fesul clwstwr i sefydlu rhwydwaith i ddatblygu gwaith cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, gyda'r pwyslais ar wella'r ddarpariaeth ar gyfer darllen a darllen er pleser.



Deilliannau:	- Datblygu arferion cydweithredol effeithiol mewn darllen a chreu diwylliant o gariad at ddarllen. - Datblygu dealltwriaeth ynghylch sut i gefnogi datblygiad sgiliau o fewn clystyrau ac ar draws lleoliadau eraill.
Dyddiad:	Rhagfyr 2023 a Mawrth 2024

RHWYDWEITHIAU LLAFAREDD

Addas ar gyfer:	Clystyrau
Disgrifiad:	Cefnogaeth fesul clwstwr i sefydlu rhwydwaith i ddatblygu gwaith cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, gyda'r pwyslais ar wella'r ddarpariaeth ar gyfer sgiliau siarad a gwranddo/llafaredd a llythrennedd.
Deilliannau:	- Datblygu arferion cydweithredol effeithiol mewn llafaredd. - Datblygu dealltwriaeth ynghylch sut i gefnogi datblygiad sgiliau o fewn clystyrau ac ar draws lleoliadau eraill.
Dyddiad:	Ionawr 2024

RHWYDWAITH PENAEITHIAID SAESNEG UWCHRADD

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol Uwchradd
Disgrifiad:	Cyfarfodydd tymhorol Rhwydwaith Peneithiaid Saesneg Uwchradd (cyfarfodydd tymhorol tymor yr Hydref '23 a Haf '24/Cyfarfodydd lleol tymor y Gwanwyn '24). Gosodir agenda yn ôl blaenoriaethau lleol, rhanbarthol ac/neu genedlaethol sy'n dod i'r amlwg.
Pwyslais cyffredinol:	- CiG: gan gynnwys dilyniant cwricwlwm, asesu ffurfiannol, ac adborth effeithiol. - Cydweithio a rhannu arferion da. - Rhannu diweddariadau ar ddatblygiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. - Gweithredu'r cymwysterau TGAU newydd (Haf '24).
Deilliannau:	- Gwella dealltwriaeth o arferion sy'n dod i'r amlwg a syniadau newydd, strategaethau ac adnoddau sy'n berthnasol i Beneithiaid Saesneg. - Gwella dealltwriaeth o'r wybodaeth a'r canllawiau allweddol gan CBAC, CC ac Estyn.
Dyddiad:	13/11/2023, Chwefror 2024 a Mehefin 2024



RHWYDWAITH ARWEINWYR LLYTHRENNEDD UWCHRADD

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol Uwchradd
Disgrifiad:	Cyfarfodydd Tymhorol Rhwydwaith Arweinwyr Llythrennedd Uwchradd. Bydd y ffocws ar ddatblygu a gweithredu strategaeth ysgol gyfan ar gyfer llythrennedd.
Deilliannau:	- Gwybodaeth well am y prif negeseuon cenedlaethol, gan gynnwys gwybodaeth allweddol ar gyfer yr asesiadau personol ar-lein. - Dealltwriaeth well o sut i ddylunio cynllun strategol effeithiol ar gyfer llythrennedd a chael mynediad at gymorth i weithredu'n effeithiol.
Dyddiad:	17/10/23, Ionawr 2024 a Gorffennaf 2024

GWEITHDY PENODOL I'R SAESNEG I GYFOETHOGI SGILIAU AR GYFER ATHRAWON YN EU GYRFA GYNNAR NEU ATHRAWON ANARBENIGOL

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr uwchradd
Disgrifiad:	Gweithdy rhanbarthol: Gwanwyn '24. Bwriad y gweithdy yw gwella arferion addysgegol mewn perthynas â datblygu sgiliau darllen, ysgrifennu a llafaredd dysgwyr.
Deilliannau:	- Mwy o hyder wrth addysgu Saesneg drwy strategaethau ac adnoddau ymarferol. - Dealltwriaeth well o sut i ddefnyddio strategaethau ac adnoddau ymarferol mewn ffordd effeithiol a chyson mewn Saesneg
Dyddiad:	Tachwedd 2023

CYFARFODYDD RHWYDWAITH I ATHRAWON SAESNEG SAFON UWCH

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr uwchradd
Disgrifiad:	Cyfarfodydd Rhwydwaith Rhanbarthol - Hydref '23: Wyneb yn wyneb/Haf '24: Rhithiol. Gosodir agenda yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n dod i'r amlwg.
Pwyslais cyffredinol:	- Rhannu diweddariadau ar ddatblygiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. - Cyfleoedd i gydweithio. - Datblygu addysgeg Safon Uwch effeithiol.
Deilliannau:	- Gwella gwybodaeth o arferion sy'n dod i'r amlwg a syniadau newydd, strategaethau ac adnoddau sy'n berthnasol i athrawon Safon Uwch. - Gwella dealltwriaeth o'r wybodaeth a'r canllawiau allweddol gan CBAC, CC ac Estyn.
Dyddiad:	28/09/2023, 10/10/2023 a Tachwedd 2023



RHWYDWAITH IEITHOEDD RHYNGWLADOL

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol Uwchradd (Penaethiaid/Cydlynwyr IRh neu ILICh neu staff perthnasol)
Disgrifiad:	Cyfarfodydd Rhwydwaith Hwb Tymhorol gyda'r agenda'n cael ei lywio gan flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n dod i'r amlwg
Pwyslais cyffredinol:	• Rhannu diweddariadau ar ddatblygiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. • Cydweithio a rhannu arferion da/sy'n dod i'r amlwg. • Cwricwlwm i Gymru • Pontio a chysylltiadau o fewn ILICh
Deilliannau:	• Gwella dealltwriaeth o arferion sy'n dod i'r amlwg a syniadau newydd, strategaethau ac adnoddau sy'n berthnasol i ieithoedd Rhyngwladol. • Gwella dealltwriaeth o'r wybodaeth a'r canllawiau allweddol gan CBAC, CC ac Estyn.
Dyddiad:	Tachwedd 2023, Mawrth 2024 a Mehefin 2024

CWRS Y BRIFYSGOL AGORED: ATHRAWON YN DYSGU I ADDYSGU IEITHOEDD (TELT)

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr cynradd
Disgrifiad:	Rhaglen sy'n uwch sgilio athrawon mewn addysgeg ieithoedd cynradd ac addysgu naill ai Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg neu Fandarín yn y cynradd. Cyfrwng Saesneg: cofrestru i gael nawdd erbyn Medi 23.
Deilliannau:	• Datblygu sgiliau ieithoedd rhyngwladol a dealltwriaeth o addysgeg ar gyfer ieithoedd rhyngwladol. • Meithrin hyder ac arbenigedd wrth ddysgu ac addysgu ieithoedd Rhyngwladol gan arwain at fwy o arferion llwyddiannus a darpariaeth well.
Dyddiad:	Amh.

DYDDIAU DYSGU PROFFESIYNOL IEITHOEDD RHYNGWLADOL

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr Cynradd ac Uwchradd
Disgrifiad:	Dyddiau Dysgu Proffesiynol Tymhorol Ieithoedd Rhyngwladol: Gwanwyn (w/c 22/01/24): Dysgu ac Addysgu Ieithoedd Rhyngwladol: • Methodoleg - Creu Arferion • Dysgu arwynebol i ddysgu dwfn. • Cynllunio'r dimensiwn diwylliannol • Jennifer Wozniak (Arbenigwr ITM ac Arweinydd Dysgu ac Addysgu)



	Haf (i'w gadarnhau): Diwrnod leithoedd Rhyngwladol (i'w gadarnhau) Ail hanner tymor yr Haf: Diwrnod 'mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd' • Edrych ar amlieithrwydd a thrawsieithu i ddatblygu cydweithio ar draws y Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd Rhyngwladol. • Siaradwyr gwadd: Elin Arfon (Ymchwilydd IRh, Caerdydd), Ellie Bristow (Ymchwilydd Saesneg, Caerdydd), Cadi Sion (Ymchwilydd y Gymraeg, Bangor).
Deilliannau:	• Datblygu dealltwriaeth gyffredin o addysgeg effeithiol ar gyfer dysgu ac addysgu drwy gyfleoedd i ymarferwyr gydweithio a thrafod yn broffesiynol. • Gwellu gwybodaeth a dealltwriaeth o bontio effeithiol rhwng sectorau i gyfoethogi dysgu iaith a sgiliau llythrennedd.
Dyddiad:	26/01/2024, Mehefin/Gorffennaf ac yn ystod ail hanner Tymor yr Haf

POWERLANGUAGE- CWRS UWCH SGILIO IAITH: SBAENEG A FFRANGEG

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr cynradd
Disgrifiad:	Cyrsiau hunan-astudio iaith Power Language ar gael ar-lein ar gyfer Ffrangeg a Sbaeneg. Gellir gwneud y cyrsiau tan fis Gorffennaf 2024 Bydd dwy sesiwn fyw ar-lein hefyd (y naill ym mis Medi 2023 a'r llall ym mis Ionawr 2024).
Deilliannau:	• Datblygu sgiliau a strategaethau ieithoedd rhyngwladol i wreiddio ieithoedd Rhyngwladol yn effeithiol yn y cwricwlwm. • Gwellu ansawdd dysgu ac addysgu ieithoedd Rhyngwladol gan arwain at fwy o arferion llwyddiannus a darpariaeth well.
Dyddiad:	Dd/b



YMCHWIL A GWERTHUSO (RHIFEDD) - ADDYSGU RHIFEDD CYNNAR MEWN FFORDD GYNHWYSOL (i-TEN)

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr cynradd
Disgrifiad:	Mae'r Rhaglen Addysgu Cynhwysol mewn Rhifedd Cynnar (i-TEN) mewn ysgolion cynradd prif lif wedi'i haddasu o'r rhaglen Mathematics Recovery (MR). Mae MR yn rhaglen sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer dysgu rhifedd i ddysgwyr iau sy'n cael anhawster efo sgiliau mathemateg cynnar. Yn y prosiect hwn, rydym yn anelu at weithio gydag ysgolion i werthuso i-TEN gyda phlant difreintiedig mewn lleoliadau prif lif i roi dull cynhwysol ar gyfer dysgu ac addysgu rhifedd cynnar. Mae'n brosiect ar y cyd rhwng GwE a Phrifysgol Warwick, ac mae elfen gref o DPP rhifedd i athrawon fel a ganlyn: • Yn y lle cyntaf, hyfforddir staff yn yr ysgolion sydd â diddordeb, i ddefnyddio a gwerthuso effaith y tri cham datblygiad cyntaf ar ddysgwyr mewn dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen. • Yn yr ail gam, mae gennym ddiddordeb gweithio gydag ysgolion i gyd-ddatblygu'r cynlluniau gwarsi ar gyfer pedwerydd a phumed cam datblygiad MR mewn lleoliadau CA2. • Byddwn hefyd yn gweithio gyda lleoliadau Cymraeg i helpu'r tîm ymchwil greu deunyddiau rhaglen MR dwyieithog. Bydd y prosiectau i-TEN a SAFMEDS yn golygu cydweithio'n agos ag ymchwilwyr a datblygwyr y Rhaglenni o Brifysgol Bangor a Phrifysgol Warwick i hyfforddi ysgolion i ddefnyddio'r ddwy ymyrraeth yn effeithiol.
Deilliannau:	• Athrawon ac/neu gymorthyddion dysgu yn gallu cyflwyno'r ymyrraeth yn dra chywir. • Mae gan athrawon well dealltwriaeth o ddysgu sgiliau rhifedd cynnar. • Gall ysgolion ddefnyddio'r cynnig llawn o ddeunyddiau cymorth, gan gynnwys y deunyddiau Cymraeg newydd.
Dyddiad:	Hyfforddiant yn nhymor y Gwanwyn 2024

YMCHWIL A GWERTHUSO (RHIFEDD) - SAFMEDS

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr cynradd
Disgrifiad:	Arfer a thechneg asesu sy'n seiliedig ar dystiolaeth yw SAFMEDS (<i>Say All Fast Minute Every Day Shuffled</i>). Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar ymarfer rheolaidd ac adolygu data asesu ffurfiannol i gynnal cynnydd mewn dysgu. Yn ôl ymchwil blaenorol, gall y strategaeth syml hon wella sgiliau rhuglder dysgwyr mewn rhifedd. Yn 2023-24, byddwn yn recriwtio staff addysgu i weithio gyda dysgwyr ym Mlwyddyn 3 neu Flwyddyn 4 i gael ymyrraeth SAFMEDS.



	Yn yr astudiaeth hon, byddwn yn gwerthuso effaith cymorth yn yr ysgol o gymharu â chymorth rhithiol ar gyfer strategaeth SAFMEDS (a hynny o ran cywirdeb y gweithredu a deilliannau rhuglder dysgwyr). Mae'r holl adnoddau ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Gwahoddir yr ysgolion hynny sydd â diddordeb i ddod i sesiwn hyfforddiant SAFMEDS ar gychwyn y prosiect. Darperir yr hyfforddiant a'r deunyddiau AM DDIM. I gymryd rhan yn y prosiect hwn: • Rhaid i'ch ysgol fod yn ysgol gynradd brif lif yn rhanbarth GwE (gall eich ysgol fod yn lleoliad cyfrwng Cymraeg, Saesneg neu ddwyieithog). • Bydd angen i'r ysgol adnabod dysgwyr sy'n cael trafferth ym Mlwyddyn 3 neu Flwyddyn 4 a fyddai'n elwa o gael ymyrraeth SAFMEDS. • Bydd angen i'r ysgol adnabod athro neu gymhorthydd dysgu all fynd i'r sesiwn hyfforddiant ym mis Hydref 2023. Dylai'r unigolyn hwn fod yr un aelod staff a fydd yn cefnogi'r sesiynau SAFMEDS yn yr ysgol. Bydd y prosiectau i-TEN a SAFMEDS yn golygu cydweithio'n agos ag ymchwilwyr a datblygwyr y Rhaglenni o Brifysgol Bangor a Phrifysgol Warwick i hyfforddi ysgolion i ddefnyddio'r ddwy ymyrraeth yn effeithiol.
Deilliannau:	• Athrawon ac/neu gymorthyddion dysgu yn gallu cyflwyno'r ymyrraeth yn dra chywir. • Mae gan athrawon well dealltwriaeth o ddysgu sgiliau rhifedd cynnar. • Gall ysgolion ddefnyddio'r cynnig llawn o ddeunyddiau cymorth, gan gynnwys y deunyddiau Cymraeg newydd.
Dyddiad:	Hyfforddi ym mis Hydref 2023

CYFARFODYDD PENAEITHAID MATEMATEG UWCHRADD

Addas ar gyfer:	Arweinwyr/Arweinwyr Canol Uwchradd
Disgrifiad:	Cyfarfodydd tymhorol ym mhob Awdurdod Lleol ar gyfer Peneithiaid Mathemateg Uwchradd, gyda chyfarfod Rhanbarthol yn nhymor yr Haf 2024. Agenda i'w phennu yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n dod i'r amlwg.
Ffocws cyffredinol:	• Rhannu diweddariadau ar ddatblygiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. • Cydweithio a rhannu arferion da sy'n dod i'r amlwg. • CiG
Deilliannau:	• Datblygu ymwybyddiaeth gynyddol o'r arferion a syniadau newydd perthnasol sy'n dod i'r amlwg (gan gynnwys strategaethau ac adnoddau). • Datblygu dealltwriaeth gynyddol o wybodaeth ac arweiniad allweddol gan e.e. CBAC, Cymwysterau Cymru ac Estyn. • Datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth drwy gydweithio a chynnal deialog broffesiynol bwrpasol.



Dyddiad:	Gwynedd: 19/10/2023, 11/03/2024 a Mehefin/Gorffennaf Ynys Môn: 11/10/2023, 07/03/2024 a Mehefin/Gorffennaf Conwy: 17/10/2023, 13/03/2024 a Mehefin/Gorffennaf Sir Ddinbych: 16/10/2023, 12/03/2024 a Mehefin/Gorffennaf Sir y Fflint: 18/10/2023, 15/03/2024 a Mehefin/Gorffennaf Wrecsam: 12/10/2023, 08/03/2024 a Mehefin/Gorffennaf
-----------------	---

CYFARFODYDD ARWEINWYR RHIFEDD UWCHRADD

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol Uwchradd	
Disgrifiad:	Cyfarfodydd tymhorol ym mhob Awdurdod Lleol ar gyfer Arweinwyr Rhifedd Uwchradd gyda ffocws ar ddatblygu strategaeth rhifedd ysgol gyfan.	
Deilliannau:	- Datblygu ymwybyddiaeth o'r negeseuon cenedlaethol allweddol diweddaraf, gan gynnwys gwybodaeth allweddol ar gyfer yr asesiadau personol ar-lein. - Datblygu dealltwriaeth o sut i fireinio cynllun strategol ar gyfer rhifedd ymhellach a chael cymorth cydweithredol i'w roi ar waith yn effeithiol.	
Dyddiad:	Gwynedd: 19/10/2023 a 11/03/2024 Ynys Môn: 11/10/2023 a 07/03/2024 Conwy: 17/10/2023 a 13/03/2024	Sir Ddinbych: 16/10/2023 a 12/03/2024 Sir y Fflint: 18/10/2023 a 15/03/2024 Wrecsam: 12/10/2023 a 08/03/2024

CYFARFODYDD ARWEINWYR RHIFEDD CYNRADD

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol Cynradd	
Disgrifiad:	Cyfarfodydd tymhorol - Arweinwyr Rhifedd Cynradd Rhanbarthol Agenda i'w phennu yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n dod i'r amlwg	
Ffocws cyffredinol:	- Rhannu y dull '6 cham' ar gyfer dylunio Strategaeth Rhifedd. - Rhannu diweddariadau ar ddatblygiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. - Cydweithio a rhannu arferion da sy'n dod i'r amlwg. - CiG	
Deilliannau:	Datblygu ymwybyddiaeth o'r negeseuon cenedlaethol allweddol ddiweddaraf gan gynnwys: - Gwybodaeth allweddol ar gyfer yr asesiadau personol ar-lein - Arweiniad i'r dull 6 cham ar gyfer dylunio strategaeth rhifedd. - Datblygu dealltwriaeth o sut i fireinio cynllun strategol ar gyfer rhifedd ymhellach a chael cymorth cydweithredol i'w roi ar waith yn effeithiol.	
Dyddiad:	Tachwedd/Rhagfyr 2023, Chwefror/Mawrth 2024 a Tymor yr Haf 2024	



RHAGLEN HYFFORDDI AR GYFER ATHRAWON MATHEMATEG UWCHRADD NAD YDYNT YN ARBENIGWYR

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr Uwchradd nad ydynt yn arbenigwyr Mathemateg/Rhifedd	
Disgrifiad:	Bydd y cwrs yn gyfle i: - Fyfyrion ar greu amgylcheddau effeithiol a deniadol ar gyfer dysgu mathemateg. - Datblygu dealltwriaeth am egwyddorion addysgeg effeithiol mewn addysgu mathemateg. - Cymhwyso'r egwyddorion hyn yn y dosbarth gyda strategaethau ac adnoddau ymarferol. - Datblygu hyder a chymhwysedd gyda chynnwys bynciol mathemateg CA4 - hyd at, ac yn cynnwys, TGAU haen uwch.	
Deilliannau:	Datblygu hyder a chymhwysedd cynyddol wrth addysgu Mathemateg gan ddefnyddio strategaethau ac adnoddau ymarferol yn llwyddiannus i gefnogi'r dysgu.	
Dyddiad:	Carfan 1: Sesiwn 1: 27/09/2023 Sesiwn 2: 13/10/2023 Sesiwn 3: 23/10/2023 Sesiwn 4: 22/11/2023 Sesiwn 5: 05/12/2023 Sesiwn 6: 28/02/2024	Carfan 2: Sesiwn 1: 28/09/2023 Sesiwn 2: 13/10/2023 Sesiwn 3: 23/10/2023 Sesiwn 4: 22/11/2023 Sesiwn 5: 06/12/2023 Sesiwn 6: 28/02/2024

DEFNYDD EFFEITHIOL O DRINOLION (MANIPULATIVES) MATHEMATEG

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr Cynradd/Ymarferwyr Uwchradd		
Disgrifiad:	Hyfforddiant i ddatblygu defnydd effeithiol o drinolion i wella dysgu ac addysgu		
Deilliannau:	Datblygu dealltwriaeth o addysgeg effeithiol gan dreialu strategaethau dysgu ac addysgu o'r gweithdy yn yr ystafell ddosbarth.		
Dyddiad:	8-11: Tymor y Gwanwyn 2024	Uwchradd:	Diwrnod 1 - 05/10/2023 Diwrnod 2 - Ymchwil yn eich ysgol Diwrnod 3 - 23/02/2024

STRATEGAETHAU DYSGU A DYSGU EFFEITHIOL CRAIG BARTON

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr o bob sector
Disgrifiad:	Gweithdy Mathemateg sy'n canolbwyntio'n benodol ar esboniadau effeithiol, enghreifftiau â datrysiadau, defnyddio ac asesu gwybodaeth flaenorol.
Deilliannau:	Datblygu dealltwriaeth o addysgeg effeithiol gan dreialu strategaethau dysgu ac addysgu o'r gweithdy yn yr ystafell ddosbarth.
Dyddiad:	01/02/2024



GWEITHDAI RHITHIOL – MATHEMATEG A RHIFEDD

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr o bob sector
Disgrifiad:	Cyfres o weithdai ar-lein yn canolbwyntio ar ddatblygu addysgeg effeithiol mewn Mathemateg a Rhifedd ymhellach. Cynhelir y gweithdai gan siaradwyr gwadd ac ymarferwyr o'r rhanbarth.
Deilliannau:	- Datblygu dealltwriaeth o addysgeg effeithiol gan dreialu strategaethau dysgu ac addysgu o'r gweithdy yn yr ystafell ddosbarth. - Datblygu ymwybyddiaeth o sut i hwyluso a chynnal arfer arloesol yn yr ystafell ddosbarth.
Dyddiad:	Tymhorol

DATBLYGU CYFLEOEDD DYSGU CYFOETHOG A SGILIAU DYSGWYR DRWY'R MDAPH GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr Cynradd (8 – 11)
Disgrifiad:	Bwriad y sesiwn yw rhannu syniadau ymarferol ar sut i ddatblygu cyfleoedd dysgu cyfoethog a gwerthfawr o fewn y maes dysgu gan edrych ar sut y gallwn wreiddio'r pedwar diben a'r sgiliau traws-gwricwlaidd o fewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Yn ystod y sesiwn byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol: - Themâu a chyd-destunau cyfoes - Adnoddau sydd ar gael i sbarduno diddordeb dysgwyr - Gweithgareddau ac ymholiadau i ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth gwyddonol y dysgwyr - Prosesau a dulliau sy'n addas i'r cwricwlwm - Archwilio'r cyfleoedd i integreiddio'r sgiliau trawsgwricwlaidd er mwyn ehangu'r dysgu - Cynllunio ar gyfer cynnydd o fewn y maes dysgu a phrofiad.
Deilliannau:	- Datblygu hyder mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg gan ddatblygu ymwybyddiaeth o'r adnoddau diweddaraf i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. - Datblygu ymwybyddiaeth gynyddol o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n datblygu sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr drwy themâu a chyd-destunau cyfoes. - Datblygu dealltwriaeth o sut i gynnig cyfleoedd pwrpasol i ddysgwyr gymhwyso sgiliau trawsgwricwlaidd o fewn y MDaPh er mwyn ehangu'r dysgu.
Dyddiad:	Rhaglen datblygiad proffesiynol sy'n rhedeg dros 3 diwrnod. Carfan 1 i gychwyn mis Tachwedd 2023. Os bydd digon o diddordeb byddwn yn cychwyn carfan ychwanegol yn Chwefror 2024.



DATBLYGU SGILIAU RHIFEDD TRAWSGWRICWLAIDD

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr Cynradd
Disgrifiad:	Gweithdai Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol - Datblygu sgiliau Rhifedd dysgwyr a chynllunio ar gyfer cynnydd ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad: • Iechyd a Lles • Y Dyniaethau
Deilliannau:	• Datblygu dealltwriaeth gynyddol wrth ddatblygu sgiliau rhifedd dysgwyr ar draws y MDaPh. • Datblygu dealltwriaeth gynyddol wrth ddatblygu'r hyfedreddau ar draws y MDaPh. • Datblygu dealltwriaeth o gynllunio a chyflwyno profiadau dysgu ysgogol sy'n gyfoethog ar y lefel gywir o her er mwyn sicrhau cynnydd dysgwyr.
Dyddiad:	8-11: Dyniaethau/Rhifedd - Mawrth 2024 8-11: Iechyd a Lles/Rhifedd - Tymor yr Haf 2024

CYNNIG I GLYSTYRAU AR GAIS YR YMGYNGHORYDD CEFNOGI GWELLIANT CYSWLLT

Addas ar gyfer:	Clystyrau/Cynghreiriau
Disgrifiad:	• Arweiniad wedi ei deilwra all gynnwys: • Dealltwriaeth o gynnydd yn yr hyfedreddau Mathemategol. • Deall a chynllunio dilyniant ar draws y continwwm dysgu mewn Mathemateg. • Rhifedd ar draws y cwricwlwm.
Deilliannau:	• Datblygu dealltwriaeth gynyddol o'r MDaPh Mathemateg a Rhifedd. • Datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth drwy gydweithio a chynnal deialog broffesiynol bwrpasol.
Dyddiad:	Parhaus



GWYDDONIAETH A THECHNOLEG – RHAGLEN DATBLYGIAD PROFFESIYNOL

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr Cynradd (8 – 11)
Disgrifiad:	Bwriad y sesiwn yw rhannu syniadau ymarferol ar sut i ddatblygu cyfleoedd dysgu cyfoethog a gwerthfawr o fewn y maes dysgu gan edrych ar sut y gallwn wreiddio'r pedwar diben o fewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Yn ystod y sesiwn byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol: • Themâu a chyd-destunau cyfoes • Adnoddau sydd ar gael i sbarduno diddordeb dysgwyr • Gweithgareddau ac ymholiadau i ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth gwyddonol y dysgwyr • Prosesau a dulliau sy'n addas i'r cwricwlwm • Archwilio'r cyfleoedd i integreiddio'r sgiliau trawsgwricwlaidd er mwyn ehangu'r dysgu • Cynllunio ar gyfer cynnydd o fewn y maes dysgu a phrofiad.
Deilliannau:	• Datblygu hyder mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg gan ddatblygu ymwybyddiaeth o'r adnoddau diweddaraf i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. • Datblygu ymwybyddiaeth gynyddol o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n datblygu sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr drwy themâu a chyd-destunau cyfoes. • Datblygu dealltwriaeth o sut i gynnig cyfleoedd pwrpasol i ddysgwyr gymhwyso sgiliau trawsgwricwlaidd o fewn y MDaPh er mwyn ehangu'r dysgu.
Dyddiad:	Carfan 1 i gychwyn mis Tachwedd 2023. Yn ddibynol ar ddiddordeb, bydd carfan 2 yn rhedeg ym mis Chwefror 2024

CYFARFODYDD RHWYDWAITH GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol ac Ymarferwyr Uwchradd
Disgrifiad:	Darparu cyfarfodydd a hyfforddiant rhanbarthol pob tymor i arweinwyr ac athrawon MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg, gydag arweiniad pendant ar: • ddylunio cwricwlwm, • cynllunio, • sgoliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol, • themâu trawsgwricwlaidd, • asesu, • cynnydd. Cynhelir cyfarfodydd rhanbarthol mis Rhagfyr, mis Mawrth a mis Mehefin.
Deilliannau:	• Dealltwriaeth well o gynnydd mewn dysgu o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg. • Mwy o hyder i gynllunio a defnyddio strategaethau asesu ffurfiannol yn y cwricwlwm Gwyddoniaeth a Thechnoleg.
Dyddiad:	Tachwedd/Rhagfyr 2023, Mawrth 2024, Mehefin 2024



DARPARU DYSGU PROFFESIYNOL A YRRIR GAN YMCHWIL I ATHRAWON GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr uwchradd
Disgrifiad:	Bydd y gynhadledd hon yn rhoi arweiniad ar ddysgu ac addysgu effeithiol o fewn gwyddoniaeth a thechnoleg, gyda phwyslais cryf ar addysgeg, addysgu effeithiol ac ymchwil weithredu. Fe'i cyflwynir gyda siaradwyr gwadd - e.e. Mark Burns, Mike Gershon.
Deilliannau:	- Mwy o hyder i gynllunio a dewis yr addysgeg fwyaf priodol i gyflwyno gwahanol agweddau ar y cwricwlwm. - Dealltwriaeth well o gynllunio tasgau heriol gwahaniaethol a defnyddio strategaethau asesu ffurfiannol Asesu ar gyfer Dysgu i gyfoethogi'r dysgu.
Dyddiad:	Tymor y Gwanwyn 2024

DARPARU CYMORTH I ATHRAWON ANARBENIGOL MEWN GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr uwchradd (athrawon anarbenigol)
Disgrifiad:	Cymorth unigryw drwy athrawon arbenigol ac YCG pynciol GwE i arweinwyr ac athrawon dosbarth unigol yn ôl y gofyn. Gallai hyn gynnwys cymorth i athrawon anarbenigol feithrin hyder ac addysgeg mewn meysydd cwricwlwm gwyddoniaeth a thechnoleg anghyfarwydd yn TGAU a Safon Uwch.
Deilliannau:	Mwy o hyder wrth addysgu Gwyddoniaeth/Technoleg gyda strategaethau ac adnoddau ymarferol
Dyddiad:	Parhaus

HYFFORDDI A MENTORA - DATBLYGU ARWEINWYR CANOL. HYFFORDDIANT I DDARPAR BENAETHIAID GWYDDONIAETH

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol Uwchradd
Disgrifiad:	Darparu hyfforddi a mentora/dysgu proffesiynol a chymorth ac arweiniad pwrpasol i Benaethiaid Gwyddoniaeth newydd neu ddarpar Benaethiaid Gwyddoniaeth.
Deilliannau:	Mwy o hyder ac effeithiolrwydd yn eu rôl. - Rheoli Perfformiad - Gweinyddiaeth Adrannol - Ansawdd Darpariaeth - Hunanarfarnu a Chynllunio Gwelliant
Dyddiad:	Parhaus – ar gais yr ysgolion neu'r YCG



HUNANARFARNU A CHYNLLUNIO GWELLIANT - GWYDDONIAETH A THECHNOLEG	
Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol Uwchradd
Disgrifiad:	Cefnogi Penaethiaid Adrannau Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn ôl y gofyn, gyda'u prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant
Deilliannau:	Mwy o hyder a dealltwriaeth o Ansawdd Darpariaeth • Cynnydd disgyblion • Hunanarfarnu a Chynllunio Gwelliant • Dealltwriaeth well o brosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant effeithiol
Dyddiad:	Parhaus – ar gais yr ysgolion neu'r YCG



ARWEINYDDIAETH DIGIDOL

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol o bob sector	
Disgrifiad:	Bwriad y rhaglen hon yw datblygu sgiliau arweinwyr digidol. Bydd y rhaglen yn rhoi cyfle i arweinwyr canol ddatblygu eu gallu i: • gynllunio'n strategol • llunio gweledigaeth ar gyfer eu darpariaeth fel ysgol • ddefnyddio offerynnau hunan-adolygu yn effeithiol er mwyn cynllunio gwelliant • monitro, gwerthuso ac adolygu yn effeithiol • defnyddio modelau addysgegol i wella'r dysgu a'r addysgu.	
Deilliannau:	Datblygu sgiliau Arweinwyr Digidol er mwyn iddynt sicrhau: • Prosesau monitro, gwerthuso ac adolygu cadarn gyda defnydd pwrpasol o offerynnau hunan-adolygu • Cynlluniau strategol cadarn er mwyn gwella'r maes • Defnydd cyson lwyddiannus o fodelau addysgegol yn arwain at wella'r dysgu.	
Dyddiad:	Cyfrwng Cymraeg: 28/11/2023	Cyfrwng Saesneg: 29/11/2023

RHAGLEN HWYLUSWYR DIGIDOL

Addas ar gyfer:	Clystyrau ysgolion	
Disgrifiad:	Yn rhan o'r rhaglen hon, mae pob clwstwr wedi enwebu hwylusydd digidol i gadeirio gweithgor dysgu digidol y clwstwr. Bydd y gweithgor yn cynnwys arweinydd digidol pob ysgol o'r clwstwr, a bydd yn gosod cyfeiriad strategol i ddatblygu'r maes yn yr ysgolion. Yn rhan o'r gwaith, bydd y gweithgor clwstwr yn adnabod anghenion dysgu proffesiynol y clwstwr ac yn ffurfio cynnig ar lefel leol i ddatblygu'r agweddau hyn. Bydd pwyslais y gwaith eleni ar ddatblygu mannau twf penodol, e.e. safonau'r disgyblion, ehangder y profiadau, cynnydd mewn sgiliau, a bydd gan bob clwstwr gynllun cyfredol i allu datblygu'r man twf dan sylw, yn ogystal â chynllun ar gyfer mesur effaith y gweithredu.	
Deilliannau:	• Cyfleoedd cynyddol i gydweithio a dysgu am arferion llwyddiannus o ysgolion eraill gan gynnwys cyfathrebu effeithiol a rhannu negeseuon o fewn y clwstwr • Datblygu ymwybyddiaeth o ddulliau cynllunio a phrosesau monitro, adolygu a gwerthuso effeithiol o fewn y clwstwr. • Datblygu ymwybyddiaeth o brofiadau dysgu cymhwysedd digidol cyfoethog er mwyn ehangu'r dysgu. • Cynnig dysgu proffesiynol lleol yn cael ei ddylunio gan y clwstwr i ymateb i ofynion ac anghenion lleol.	
Dyddiad:	Yn cael ei drefnu ar lefel clwstwr gan yr ysgolion	



TROSOLWG O OFYNIION CYMHWYSEDD DIGIDOL – CYNLLUNIO'R CYNNYDD 1 – 3

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol ac Ymarferwyr Cynradd	
Disgrifiad:	Mae'r sesiwn hon yn canolbwyntio ar ymgyfarwyddo â gofynion cymhwysedd digidol Cwricwlwm i Gymru gan ddefnyddio meddalwedd/apiau sydd ar gael drwy Hwb a thu hwnt. Byddwn yn archwilio'r sgiliau sydd eu hangen ar fyfyrwyr i'w datblygu trwy gamau cynnydd 1 a 3.	
Deilliannau:	- Datblygu dealltwriaeth o'r gofynion a'r dilyniant sydd ynghlwm â chymhwysedd digidol hyd at gam cynnydd 3. - Datblygu dealltwriaeth o sut i gynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau cymhwysedd digidol ar y lefel her briodol ac o fewn profiadau dysgu dilys a chyfoethog. - Datblygu ymwybyddiaeth o'r meddalwedd/apiau diweddaraf i ddatblygu sgiliau cymhwysedd digidol	
Dyddiad:	Cyfrwng Cymraeg: 18/10/2023 a 18/01/2024	Cyfrwng Saesneg: 19/10/2023 a 19/01/2024

MODELU – CYNLLUNIO'R CYNNYDD 1 – 3

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol ac Ymarferwyr Cynradd	
Disgrifiad:	Mae'r sesiwn hon yn canolbwyntio ar ymgyfarwyddo â gofynion 'Modelu' Cwricwlwm i Gymru gan ddefnyddio meddalwedd Hwb. Byddwn yn archwilio'r sgiliau sydd eu hangen ar fyfyrwyr i'w datblygu trwy gamau cynnydd 1 a 3.	
Deilliannau:	- Datblygu dealltwriaeth o'r gofynion a'r dilyniant sydd ynghlwm â Modelu hyd at gam cynnydd 3. - Datblygu dealltwriaeth o sut i gynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau Modelu ar y lefel her briodol ac o fewn profiadau dysgu dilys a chyfoethog. - Datblygu ymwybyddiaeth o'r meddalwedd/apiau diweddaraf i ddatblygu sgiliau Modelu.	
Dyddiad:	Cyfrwng Cymraeg: 06/12/2023	Cyfrwng Saesneg: 08/12/2023



TRIN DATA – CYNLLUNIO’R CYNNYDD 1 – 3

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol ac Ymarferwyr Cynradd	
Disgrifiad:	Mae’r sesiwn hon yn canolbwyntio ar ymgyfarwyddo â gofynion trin data Cwricwlwm i Gymru gan ddefnyddio meddalwedd Hwb. Byddwn yn archwilio’r sgiliau sydd eu hangen ar fyfyrwyr i’w datblygu trwy gamau cynnydd 1 a 3	
Deilliannau:	- Datblygu dealltwriaeth o’r gofynion a’r dilyniant sydd ynghlwm â Thrin Data hyd at gam cynnydd 3. - Datblygu dealltwriaeth o sut i gynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau Trin Data ar y lefel her briodol ac o fewn profiadau dysgu dilys a chyfoethog. - Datblygu ymwybyddiaeth o’r meddalwedd/apiau diweddaraf i ddatblygu sgiliau Trin Data.	
Dyddiad:	Cyfrwng Cymraeg: 14/11/2023	Cyfrwng Saesneg: 16/11/2023

RHWYDWAITH DIGIDOL UWCHRADD

Addas ar gyfer:	Arweinwyr/Arweinwyr Canol Uwchradd		
Disgrifiad:	Mae’r rhwydwaith hwn yn fodd i arweinwyr gydweithio a chefnogi ei gilydd er mwyn manteisio orau ar y medrau digidol a’r arferion llwyddiannus sydd i’w gweld ar draws y Rhanbarth. Bydd cyfle i adnabod anghenion dysgu proffesiynol ein hysgolion a chydweithio er mwyn datblygu’r agweddau hyn.		
Deilliannau:	- Datblygu hyder gynyddol wrth sefydlu a gweithredu strategaeth ddigidol er mwyn cefnogi cynnydd sgiliau digidol ar draws yr ysgol a pharatoi disgyblion at gymwysterau digidol. - Datblygu ymwybyddiaeth o arferion da ar draws y Rhanbarth gan gyfrannu atynt a manteisio arnynt er mwyn gwella safonau dysgu digidol.		
Dyddiad:	Ynys Môn a Gwynedd: 17/10/2023	Conwy a Sir Ddinbych: 18/10/2023	Sir y Fflint a Wrecsam: 19/10/2023

HYFFORDDIANT LEFEL 2 GOOGLE EDUCATORS

Addas ar gyfer:	Arweinwyr o bob sector
Disgrifiad:	Cynigir yr hyfforddiant hwn mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a rhydd gyfle i ymarferwyr ennill achrediad addysgwyr Lefel 2 Google. Mae Hyfforddiant Lefel 2 Google Educators yn rhoi sgiliau a gwybodaeth ar lefel uwch i ddefnyddio adnoddau Google yn effeithiol i ddibenion addysgol, yn cyfoethogi eich arferion addysgu, ac yn gwella deilliannau dysgu myfyrwyr.



Deilliannau:	Drwy fanteisio ar y Cynnig Dysgu Proffesiynol hwn, byddwch yn datblygu: • Sgiliau addysgu ar lefel uwch a'r gallu i blethu technoleg yn effeithiol. • Gwella eich effeithlonrwydd wrth greu a threfnu deunyddiau cyfarwyddiadol. • Cydweithio a sicrhau cyfathrebu gwell rhwng myfyrwyr a chydweithwyr. • Datblygu'n bersonol ac yn cael ymdeimlad o gyflawni. • Cael datblygiad mewn cyfleoedd gyrfa yn y maes addysg. • Gwella ymgysylltiad, cymhelliant a chyflawniad myfyrwyr. • Meddu ar arferion addysgu gwell yn seiliedig ar ddadansoddi data. • Cael mynediad at rwydwaith proffesiynol o addysgwyr ac adnoddau datblygol parhaus. • Gallu addasu i dechnoleg sy'n esblygu mewn addysg.
Dyddiad:	Tymor y Gwanwyn

CYFUNO SGILIAU DIGIDOL A LLYTHRENNEDD AR DRAWS Y CWRICWLWM (PWYSLAIS AR GAMAU CYNNYDD 2/3/4)

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr Cynradd ac Uwchradd	
Disgrifiad:	Mae creu fideo yn ddull effeithiol o gyflwyno gwybodaeth mewn ffordd sy'n ddiddorol i'r gynulleidfa ac yn dechneg all gael ei defnyddio mewn unrhyw faes dysgu a phrofiad. Yn ystod yr hyfforddiant hwn byddwn yn canolbwyntio ar yr agweddau canlynol: • Prosesau cynllunio • Technegau animeiddio • Recordio sain i greu effaith • Technegau creu ffilm • Adnabod cyfleoedd i ddatblygu llafaredd y dysgwyr drwy waith ffilm • Gwerthuso cynrychiadau er mwyn gwella sgiliau	
Deilliannau:	Drwy ymwneud â'r Dysgu Proffesiynol yma, bydd ymarferwyr yn cynyddu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth am y canlynol: • Tasgau sy'n defnyddio gwaith ffilm fel dull o gyflwyno gwybodaeth. • Cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu llafaredd • Cynrychiadau o ansawdd uchel sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr ehangu eu sgiliau • Annog dysgwyr i wneud penderfyniadau addas wrth gynllunio sy'n arwain at safonau uwch • Creu ffilm yn dechneg sy'n cael ei defnyddio'n effeithiol i gyfathrebu gwybodaeth ar draws y cwricwlwm.	
Dyddiad:	Cyfrwng Cymraeg: 09/11/2023	Cyfrwng Saesneg: 09/11/2023



RHAGLENNU (LEFEL SYLFAENOL A CANOLRADD)

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr o bob sector		
Disgrifiad:	Hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr sy'n awyddus i integreiddio nodweddion mwy heriol yn eu gweithgareddau rhaglennu. Bydd hwn yn ddilyniant o'r cwrs rhaglennu lefel sylfaenol ac yn canolbwyntio ar yr agweddau canlynol: • Cymalau amodol • Newidynnau • Defnyddio synwryddion i reoli allbynnau Bydd cyfle i ymgymryd â nifer o weithdai ymarferol er mwyn cael profiad o ddefnyddio'r amrediad o ddyfeisiadau rhaglennu sydd ar gael i ysgolion.		
Deilliannau:	• Datblygu hyder gynyddol yn y maes rhaglennu er mwyn cynnal tasgau rhaglennu a meddwl cyfrifiadurol effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. • Datblygu hyder gynyddol wrth gynllunio a chynnal tasgau codio. • Cefnogaeth er mwyn cynnig gyfleoedd cyfoethog i ddysgwyr ymgysylltu â'r elfennau o gyfrifiaduraeth o fewn y MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg.		
Dyddiad:		Cyfrwng Cymraeg:	Cyfrwng Saesneg:
	<u>Lefel Canolradd - Cohort 1</u>	21/11/2023	22/11/2023
	<u>Lefel Canolradd - Cohort 2</u>	23/01/2024	25/01/2024
	<u>Lefel Sylfaenol</u>	10/10/2023 a 30/01/2024	12/10/2023 a 01/02/2024

CYM DIGI MEWN IAITH A LLYTHRENNEDD (PWYSLAIS AR GAMAU CYNNYDD 3/4/5)

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr o bob sector	
Disgrifiad:	Ymgorffori sgiliau digidol yn naturiol yn y MDaPh Iaith a Llythrennedd gyda phwyslais ar ddilyniant o fewn y Fframwaith. Nod y sesiwn hon yw rhoi cymorth i arweinwyr canol ac ymarferwyr ystafell ddosbarth i wella sgiliau digidol dysgwyr yn naturiol yn eu maes dysgu a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r dilyniant yn y Fframwaith. Bydd y sesiwn yn cynnwys: • Cyfleoedd o fewn y maes dysgu i wreiddio sgiliau digidol yn naturiol o fewn y MDaPh. • Sut i ddefnyddio cynnig Hwb i'w llawn botensial i wella profiad digidol y dysgwr. • Rhannu arfer dda a chyfleoedd i rwydweithio ag arbenigwyr pwnc tebyg.	
Deilliannau:	Wrth ymwneud a'r Dysgu Proffesiynol yma, bydd ymarferwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r agweddau canlynol: • Defnydd effeithiol o'r pecyn Adobe Express, Audacity a chodio Scratch mewn Iaith a Llythrennedd. • Tasgau digidol cyfoethog sydd yn cryfhau gwybodaeth bynciol. • Darpariaeth bwrpasol i ddatblygu sgiliau digidol effeithiol y gellir eu mabwysiadu ar draws y MDaPh.	
Dyddiad:	Cyfrwng Cymraeg: 08/11/2023	Cyfrwng Saesneg: 09/11/2023



CYM DIGI MEWN IECHYD A LLES (PWYSLAIS AR GAMAU CYNNYDD 3/4/5)

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr o bob sector	
Disgrifiad:	Ymgorffori sgiliau digidol yn naturiol yn y MDaPh Iechyd a Lles gyda phwyslais ar ddilyniant o fewn y Fframwaith. Nod y sesiwn hon yw rhoi cymorth i arweinwyr canol ac ymarferwyr ystafell ddosbarth wella sgiliau digidol dysgwyr yn naturiol yn eu maes dysgu a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r dilyniant yn y Fframwaith. Bydd y sesiwn yn cynnwys: • Cyfleoedd o fewn y maes dysgu i wreiddio sgiliau digidol yn naturiol o fewn y MDaPh, • Sut i ddefnyddio cynnig Hwb i'w llawn botensial i wella profiad digidol y dysgwr. • Rhannu arfer dda a chyfleoedd i rwydweithio ag arbenigwyr pwnc tebyg.	
Deilliannau:	• Defnydd effeithiol o'r pecyn Adobe Express, Audacity, trin data, modelu a chodio Scratch mewn Iechyd a Lles. • Tasgau digidol cyfoethog sydd yn cryfhau gwybodaeth bynciol. • Darpariaeth bwrpasol i ddatblygu sgiliau digidol effeithiol y gallir eu mabwysiadu ar draws y MDaPh.	
Dyddiad:	Cyfrwng Cymraeg: 16/01/2024	Cyfrwng Saesneg: 17/01/2024

CYM DIGI YN Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL (PWYSLAIS AR GAMAU CYNNYDD 3/4/5)

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr o bob sector	
Disgrifiad:	Ymgorffori sgiliau digidol yn naturiol ym MDaPh y Celfyddydau Mynegiannol gyda phwyslais ar ddilyniant o fewn y Fframwaith. Nod y sesiwn hon yw rhoi cymorth i arweinwyr canol ac ymarferwyr ystafell ddosbarth wella sgiliau digidol dysgwyr yn naturiol yn eu maes dysgu a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r dilyniant yn y Fframwaith. Bydd y sesiwn yn cynnwys: • Cyfleoedd o fewn y maes dysgu i wreiddio sgiliau digidol yn naturiol o fewn y MDaPh. • Sut i ddefnyddio cynnig Hwb i'w llawn botensial i wella profiad digidol y dysgwr. • Rhannu arfer dda a chyfleoedd i rwydweithio ag arbenigwyr pwnc tebyg.	
Deilliannau:	• Defnydd effeithiol o feddalwedd creadigol a chodio Scratch yn y Celfyddydau Mynegiannol. • Tasgau digidol cyfoethog sydd yn cryfhau gwybodaeth bynciol. • Darpariaeth bwrpasol i ddatblygu sgiliau digidol effeithiol y gallir eu mabwysiadu ar draws y MDaPh.	
Dyddiad:	Cyfrwng Cymraeg: 12/12/2023	Cyfrwng Saesneg: 13/12/2023



CYM DIGI YN Y DYNIAETHAU (PWYSLAIS AR GAMAU CYNNYDD 3/4/5)

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr o bob sector	
Disgrifiad:	Ymgorffori sgiliau digidol yn naturiol ym MDaPh y Dyniaethau gyda phwyslais ar ddilyniant o fewn y Fframwaith. Nod y sesiwn hon yw rhoi cymorth i arweinwyr canol ac ymarferwyr ystafell ddosbarth wella sgiliau digidol dysgwyr yn naturiol yn eu maes dysgu a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r dilyniant yn y Fframwaith. Bydd y sesiwn yn cynnwys: • Cyfleoedd o fewn y maes dysgu i wreiddio sgiliau digidol yn naturiol o fewn y MDaPh. • Sut i ddefnyddio cynnig Hwb i'w llawn botensial i wella profiad digidol y dysgwr. • Rhannu arfer dda a chyfleoedd i rwydweithio ag arbenigwyr pwnc tebyg.	
Deiliannau:	• Datblygu dealltwriaeth o dasgau sy'n defnyddio ymchwil, dadansoddi data a chodio gyda synwryddion yn y Dyniaethau. • Tasgau digidol gyfoethog sydd yn cryfhau gwybodaeth bynciol. • Darpariaeth bwrpasol i ddatblygu sgiliau digidol effeithiol y gellir eu mabwysiadu ar draws y MDaPh.	
Dyddiad:	Cyfrwng Cymraeg: 29/11/2023	Cyfrwng Saesneg: 30/11/2023

360 DIGI

Addas ar gyfer:	Arweinwyr o bob sector	
Disgrifiad:	Bydd y sesiwn hyfforddi ymarferol hon yn helpu ysgolion i ddechrau defnyddio'r offeryn a chael cymorth gydag elfennau o'r offeryn mapio ar y diwrnod a rhwydweithio ag ymarferwyr eraill i rannu arfer dda. Mae 360 digi Cymru, sy'n rhan o becyn adnoddau 360 Cymru, yn adnodd hunan adolygu dwyieithog sy'n cefnogi'r Daith Dysgu Proffesiynol Digidol. Nod yr adnodd yw helpu ysgolion a lleoliadau i werthuso pa mor dda y maent yn cynllunio dysgu digidol, ei roi ar waith a'i gynnal wrth iddynt barhau â'u taith dysgu digidol.	
Deiliannau:	• Datblygu hyder arweinwyr wrth gychwyn neu barhau trwy ddilyn cefnogaeth gyda'r pecyn 360 Digi Cymru. • Datblygu ymwybyddiaeth o safonau digidol cenedlaethol • Cefnogi i gynllunio, cynnal ac adolygu gwelliant er mwyn sicrhau bod safonau digidol yn gyson uchel ar draws yr ysgol.	
Dyddiad:	Cyfrwng Cymraeg: 03/10/2023	Cyfrwng Saesneg: 05/10/2023



360 SAFE CYMRU		
Addas ar gyfer:	Arweinwyr o bob sector	
Disgrifiad:	Bydd y sesiwn hyfforddi ymarferol hon yn helpu ysgolion i ddechrau defnyddio'r offeryn a chael cymorth gydag elfennau o'r offeryn mapio ar y diwrnod a rhwydweithio ag ymarferwyr eraill i rannu arfer dda. Nod 360 Safe Cymru yw helpu ysgolion yng Nghymru i adolygu eu harferion a'u polisïau diogelwch ar-lein. Yn ystod yr adolygiad, byddwch chi'n gweithio ar bob agwedd ar ddiogelwch ar-lein. Bydd hynny'n eich helpu i gydweithio, adrodd yn ôl a datblygu.	
Deilliannau:	• Datblygu hyder arweinwyr wrth gychwyn neu barhau trwy ddilyn cefnogaeth gyda phhecyn 360 Safe Cymru. • Datblygu dealltwriaeth bwrpasol o ble mae'r ysgol arni wrth hunan adolygu. • Datblygu gweledigaeth a chyfeiriad pendant wrth gynllunio i dderbyn a chynnal achrediad 360 Safe Cymru yn flynyddol.	
Dyddiad:	Cyfrwng Cymraeg: 04/10/2023	Cyfrwng Saesneg: 06/10/2023



CYNNYDD A PHONTIO 3-16 - ARWEINWYR YSGOLION

Addas ar gyfer:	Arweinwyr ysgolion (pob sector)
Disgrifiad:	Tair sesiwn dysgu proffesiynol rhanbarthol o fis Hydref 2023 i ddatblygu'r agweddau canlynol: - Datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd 3 i 16 a chynlluniau gwella cyffredin dan y Cwricwlwm i Gymru - Strwythurau a chyfundrefnau fel bod modd datblygu cynnydd drwy gydweithio, gan gynnwys rôl GwE o ran hwyluso'r broses: O fewn yr ysgol; Ar draws clystyrau; Tu hwnt i glystyrau; Ar draws ysgolion uwchradd, arbennig ac UCD - Dealltwriaeth well o'r gofynion statudol dan Cwricwlwm i Gymru - Dysgu Proffesiynol unigryw wedi'i dargedu i glystyrau sy'n gweld bod arnynt angen mwy o gymorth i ddatblygu systemau ar gyfer dealltwriaeth gyffredin o gynnydd 3 i 16. Rhannu arferion llwyddiannus ac effaith ar draws y sectorau, gan gynnwys enghreifftiau tu hwnt i addysg a chynllunio'r camau nesaf
Deilliannau:	- Dealltwriaeth well o'r gofynion statudol dan Cwricwlwm i Gymru - Dealltwriaeth well o ofynion datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd gan gynnwys cynllunio ar gyfer cynnydd, o fewn ysgolion a rhwng ysgolion - Dealltwriaeth well o gydweithio yn effeithiol â chymheiriaid, a chyd-atebolrwydd am gynnydd a safonau ar draws y cysyniad o 'ysgol ganol' ar wahanol oedrannau a lefelau - Strwythurau gwell ar gyfer hunanarfarnu clwstwr a chynlluniau gwella cyffredin, yn gysylltiedig â blaenoriaethau LIC gan gynnwys y Canllawiau Gwella Ysgolion, Yr adnodd cenedlaethol: gwerthuso a gwella, YSD a fframwaith Estyn.
Dyddiad:	20/10/2023, 26/10/2023, 10/11/2023

PONTIO - ARWEINWYR CANOL AC YMARFERWYR

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol ac Ymarferwyr o bob sector
Disgrifiad:	Targedu dysgu proffesiynol rhanbarthol i arweinwyr canol ac ymarferwyr ar rôl ac effaith arweinyddiaeth ganol ar ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd o fis Ionawr 2024.
Deilliannau:	- Deall yn well sut i gefnogi gwelliant cyffredin mewn ysgolion a chlystyrau - Ymwybyddiaeth well o arferion effeithiol a sut i addasu a gweithredu yn eich lleoliadau eich hun i sicrhau cynnydd gwell ac asesu cyson ar draws y continwwm 3 i 16. - Dealltwriaeth well o ofynion ar draws y clwstwr, a thu hwnt i'r clwstwr, ac effaith datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd 3-16 - Datblygu rôl dysgwyr, rhieni a'r bartneriaeth ehangach - Trefniadau ymarferol - sut beth yw safonau cadarn? Sut beth yw dealltwriaeth gyffredin effeithiol o gynnydd?



	Cynllunio'r camau nesaf gan gynnwys rhwydweithiau cydweithio
Dyddiad:	Chwefror 2024

PONTIO - CLYSTYRAU

Addas ar gyfer:	Clystyrau
Disgrifiad:	Parhau i weithredu'r Prosiect Pontio Addysgeg o fis Medi 2023 Bydd cyfleoedd i rannu a defnyddio'r arferion llwyddiannus drwy ymestyn y prosiect i gynnwys mwy o glystyrau.
Deilliannau:	- Deall yn well sut i gefnogi gwelliant cyffredin mewn ysgolion a chlystyrau - Ymwbyddiaeth well o arferion effeithiol a sut i addasu a gweithredu yn eich lleoliadau eich hun i sicrhau bod cynnydd disgyblion yn gwella ar draws y continwwm 3 i 16.
Dyddiad:	Parhaus ac wedi'i deilwra ar gyfer pob clwstwr Clystyrau pontio addysgeg (cyfranogwyr y prosiect) – bob hanner tymor yn dechrau 06/10/23

TRI DIBEN ASESU YN Y CWRICWLWM I GYMRU

Addas ar gyfer:	Arweinwyr / Arweinwyr Canol / Clystyrau Ysgolion Cynradd
Disgrifiad:	Hyfforddiant diweddarau tymhorol ar Dri Diben Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer ysgolion cynradd: - Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd - Adnabod a dal cynnydd dysgwyr unigol dros amser, a myfyrio arno Deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion
Deilliannau:	- Dealltwriaeth well o sut i ddatblygu trefniadau asesu effeithiol i ddysgwyr gan gynnwys asesiadau wrth i ddisgyblion ddechrau mewn ysgol/leoliad. - Dealltwriaeth well o bwysigrwydd sicrhau bod prosesau yn rhan o ddylunio'r cwricwlwm, na ellir eu gwahaniaethu o'r dysgu a'r addysgu, a'u bod yn cefnogi cynnydd dysgwyr yn effeithiol.
Dyddiad:	10/10/2023, 11/10/2023, Ionawr 2024 a Mai 2024

GWEITHDAI ASESU FFURFIANNOL

Addas ar gyfer:	Uwch Arweinwyr ac Arweinwyr Canol
Disgrifiad:	Gweithdai diweddarau ar asesu ffurfiannol i drafod dibenion asesu ffurfiannol a datblygu defnydd effeithiol o gyfryngau/dulliau fel: Asesu Cymheiriaid; Hunan Asesu; Bwriadau dysgu/meini prawf llwyddiant; Y camau nesaf; technegau adborth; Ymateb disgyblion i adborth.



Deilliannau:	• Dealltwriaeth well o ddefnyddio dulliau Asesu Ffurfiannol yn effeithiol i hybu'r dysgu. • Gwella ymwybyddiaeth o arferion effeithiol a sut i addasu a gweithredu yn eich lleoliadau.
Dyddiad:	Ar gais y clystyrau

CYNHADLEDD MICHAEL CHILES AR DDIBENION ADBORTH

Addas ar gyfer:	Arweinwyr ysgolion (pob sector)
Disgrifiad:	Cyfle i gael ysbrydoliaeth yn ystod y dydd drwy wrando ar y brif araith a chael cyfle i edrych ar beth yw dibenion adborth, cynllunio ar gyfer adborth ochr yn ochr ag addysgeg a chynnydd a defnyddio'r adnoddau gorau ar gyfer y deiliant sydd dan sylw.
Deilliannau:	• Gwybod a deall yn well sut i ddefnyddio adborth yn effeithiol i wella'r dysgu a'r addysgu. • Gwella ymwybyddiaeth o arferion effeithiol a sut i addasu a gweithredu yn eich lleoliadau.
Dyddiad:	Chwefror 2024

O GYNLLUNIO'R CWRICWLWM I ADRODD I RIENI AC YN ÔL ETO

Addas ar gyfer:	Penaethiaid Uwchradd
Disgrifiad:	Gweithdai i ddiweddarau dealltwriaeth a rhoi cyfle i fyfyrwyr ar: • broses dylunio'r cwricwlwm o'r weledigaeth, dylunio strategol ysgol gyfan, cynllunio ar gyfer cynnydd, asesu cynnydd ac adrodd, fel proses gyfan.
Deilliannau:	• Atgoffa am natur gylchol y gwaith cynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd • Gwella dealltwriaeth o sut mae pob elfen yn cysylltu â'r nesaf ac yn bwydo'r nesaf o fewn y broses gynllunio, gan arwain at gwricwlwm newydd sy'n ymateb i'w bedwar diben ac yn sicrhau deilliannau gwell i ddysgwyr.
Dyddiad:	27/11/2023 a 28/11/2023

YMCHWIL WEITHREDU - DIBEN ASESU

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol Uwchradd
Disgrifiad:	Cyfle i gomisiynu 6 i 8 ysgol uwchradd ar gyfer prosiect ymchwil weithredu ar ddiben asesu
Deilliannau:	• Gwybodaeth a dealltwriaeth well am ddiben asesu i wella'r dysgu a'r addysgu • Gwella ymwybyddiaeth o arferion effeithiol a sut i addasu a gweithredu yn eich lleoliadau



Deilliannau:	Cyfrannu at ddatblygu arferion mewn astudiaethau achos er budd ymarferwyr ar draws y rhanbarth.
Dyddiad:	Bydd ysgolion yn cael cynnig i gofrestru yn ystod yr hanner cyntaf hanner tymor yr Hydref

SUT MAE CYNNYDD YN EDRYCH I DDISGYBLION MEWN LLEOLIADAU ARBENIGOL? (YSGOLION ARBENNIG, UauCD A CHANOLFANNAU ADNODD)

Addas ar gyfer:	Athrawon Ysgolion Arbennig, Athrawon Canolfannau Adnodd, Cydlynwyr ADY a Chymorthyddion Dysgu
Disgrifiad:	Yn y gweithdy hwn caiff ymarferwyr gyfle i ddysgu am, a myfyrio ar, yr egwyddorion cynnydd, a sut y gellir eu defnyddio ar draws lleoliadau arbenigol. Bydd y gweithdy yn fforwm i staff fyfyrto, rhannu a datblygu syniadau am sut y mae cynnydd disgybl o fewn y CiG yn edrych ar gyfer disgyblion yn eu lleoliadau.
Deilliannau:	- Gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r egwyddorion cynnydd a'u defnydd mewn lleoliad arbenigol. - Adnoddau ymarferol ac egwyddorion i'w rhannu ag ymarferwyr yn eu lleoliadau.
Dyddiad:	22/11/2023

Dysgu ac Addysgu





RHWYDWEITHIAU CWRICWLWM I GYMRU CENEDLAETHOL TRAWS RANBARTHOL

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol ac Ymarferwyr o bob sector
Disgrifiad:	Bydd YCG arbenigol o bob Rhanbarth yn cydweithio er mwyn cynnig DP perthnasol cyson i ymarferwyr ar draws Cymru. Bydd y sesiynau hyn yn arfogi ymarferwyr ac arweinwyr i wireddu'r Cwricwlwm Newydd ac yn rhannu arferion llwyddiannus sy'n dod i'r amlwg ledled Cymru. - Sesiynau cenedlaethol dros MS Teams – un yn nhymor yr Hydref ac un yn nhymor yr Haf - Un sesiwn 1.5 awr ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad, a honno yn cael ei ailadrodd ar yr un diwrnod - Sesiwn fore 10 – 11:30yb / Sesiwn ar ôl ysgol – 3:45 – 5:15yh.
Deilliannau:	- Datblygu dealltwriaeth gynyddol o sut i wireddu'r CiG yn effeithiol (o fewn ac ar draws MDaPh). - Manteisio a chyfrannu at yr arferion gorau sy'n dod i'r amlwg o fewn y gyfundrefn ar draws y Rhanbarth a Chymru.
Dyddiad:	Hydref/Tachwedd 2023 a Mehefin/Gorffennaf 2024

RHWYDWAITH TYSTYSGRIF HER SGILIAU UWCH

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol ac Ymarferwyr Uwchradd		
Disgrifiad:	Bydd cyfarfodydd rhwydwaith Tystysgrif Her Sgiliau Uwch rhithiol unwaith y tymor neu yn ôl y galw. Bydd yn gyfle i rannu arferion llwyddiannus sy'n dod i'r amlwg.		
Deilliannau:	- Datblygu dealltwriaeth gynyddol ynghylch y cymhwyster. - Cyfrannu at ddeialog broffesiynol ar draws y rhanbarth er mwyn manteisio ar arferion da a syniadau newydd.		
Dyddiad:	Tymor yr Hydref: Mis Tachwedd	Tymor y Gwanwyn: Mawrth/yn ôl y gofyn	Tymor yr Haf: Mehefin/yn ôl y gofyn

RHWYDWAITH ARWEINWYR DYSGU AC ADDYSGU (UWCHRADD)

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Dysgu ac Addysgu (Uwchradd)
Disgrifiad:	Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu ar gyfer Arweinwyr Dysgu ac Addysgu Uwchradd i sicrhau bod arferion gorau'n cael eu datblygu ac i gefnogi ei gilydd i ddatblygu ymagwedd addysgeg gyson. Bydd y Rhwydwaith yn cefnogi arferion gorau ym mhob maes dysgu ac addysgu. Mae hyn yn cynnwys: - Holi effeithiol. - Her. - Gwahaniaethu.



	4. Cynllunio effeithiol i sicrhau cynnydd disgyblion. 5. Metawybyddiaeth. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar wella darpariaeth drwy annog arweinwyr dysgu ac addysgu i drafod dulliau pedagogaidd cyfredol a'u heffeithiau ar safonau a dilyniant.
Deilliannau:	Bydd gan Arweinwyr Dysgu ac Addysgu: • trosolwg clir o ansawdd dysgu ac addysgu ar draws eu hysgolion ac yn benodol mewn perthynas ag effaith yr addysgu ar safonau a chynnydd disgyblion • mynychu hyfforddiant dysgu proffesiynol perthnasol a ddarparwyd trwy Gynnig GwE neu gefnogaeth bwrpasol wedi'i chomisiynu ac wedi'i thargedu • Bydd Arweinwyr Dysgu ac Addysgu yn cael enghreifftiau o arferion gorau a fydd yn cael eu gweithredu'n strategol • Nifer cynyddol o ymarferwyr yn cydweithio ac yn cymryd rhan mewn deialog broffesiynol bwrpasol ar draws awdurdodau lleol
Dyddiad:	21/09/2023, 17/11/2023, Mawrth 2024 a Mai 2024



Y PROSIECT YMHOLI PROFFESIYNOL CENEDLAETHOL (PYPC, <i>NPEP</i>)	
Addas ar gyfer:	Arweinwyr canol ac ymarferwyr o bob sector
Disgrifiad:	Er 2018, bu GwE a'n partneriaid ymchwil ym Mhrifysgol Bangor a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam yn gweithio gydag athrawon mewn mwy na 40 o ysgolion yn y rhanbarth er mwyn gwella eu sgiliau ymholi i ateb cwestiynau ynghylch darpariaeth ysgol. Mae gennym rwydwaith o ysgolion arweiniol a phartner a arweinir gan staff ymchwil academiaidd mewn cyfuniad o gyfarfodydd grŵp ar-lein, a chymorth ar e-bost/ffôn fel bo'r angen. Mae gan PYPC hefyd storfa o ddeunyddiau canllaw craidd sydd ar gael i ysgolion sy'n cymryd rhan, a chaiff ysgolion gryn ryddid i adnabod y ffocws ymholi perthnasol. Mae gennym bellach gyllid gan Lywodraeth Cymru i ymestyn nifer yr ysgolion partner yng ngogledd Cymru. Mae arian ar gael i ysgolion PYPC i helpu athrawon i wneud y gwaith.
Deilliannau:	• Gwella gallu athrawon i gynnal gwaith ymholi o safon dda. • Cefnogi athrawon ac ysgolion i gynnal gwerthusiadau o safon dda i helpu i wella darpariaeth ysgolion. • Hybu diwylliant o ymholi gan athrawon o fewn diwylliant sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth.
Dyddiad:	Bob hanner tymor o fis Medi 2023



RHWYDWEITHIAU DYSGU AC ADDYSGU	
Addas ar gyfer:	Arweinwyr ac Ymarferwyr Uwchradd
Disgrifiad:	Rhwydwaith i gefnogi'r arferion gorau ym mhob maes dysgu ac addysgu. Mae hyn yn cynnwys: 1. Cwestiynu effeithiol. 2. Her. 3. Gwahaniaethu. 4. Cynllunio effeithiol i sicrhau cynnydd dysgwyr. 5. Metawybyddiaeth.
Deilliannau:	• Bydd arweinwyr ac ymarferwyr ar bob lefel yn cael enghreifftiau o'r arferion gorau a weithredir yn strategol. • Bydd arweinwyr ac ymarferwyr ar bob lefel yn cael enghreifftiau o'r arferion gorau a fydd yn datblygu eu dealltwriaeth o sut i sicrhau cynnydd effeithiol gan ddisgyblion. • Mwy o Arweinwyr ac Ymarferwyr yn cydweithio a thrafod yn broffesiynol â chydweithwyr o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion.
Dyddiad:	21/09/2023, 17/11/2023, Mawrth 2024 a Mai 2024

DULLIAU CWRICWLWM, CYNNYDD A SGILIAU ADDYSGEGOL	
Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol Cynradd ac Uwchradd
Disgrifiad:	Datblygu Dysgu ac Addysgu o safon uchel drwy gefnogi a datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o ddulliau cwricwlwm, cynnydd a sgiliau addysgegol. Sesiynau i ystyried y canlynol: • Symud tuag at gwricwlwm o ddibenion • Sut mae NEIA yn llywio gwelliannau i'r dyfodol? • Strategaethau Dysgu ac Addysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth • Sut ydym ni'n cynllunio ar gyfer cynnydd drwy'r addysgeg iawn ar y cam iawn yn y dysgu?
Deilliannau:	• Cefnogi Arweinwyr i gysylltu'r cwricwlwm, cynnydd ac addysgeg yn llwyddiannus • Datblygu dealltwriaeth gynyddol o gwricwlwm sy'n seiliedig ar ddibenion • Datblygu dealltwriaeth o'r sgiliau sydd eu hangen i gynllunio ar gyfer cynnydd drwy addysgeg ffit orau ar yr adeg priodol yn y dysgu. • Cefnogi arweinwyr i werthuso eu strategaethau addysgegol eu hunain a sicrhau bod arferion ar sail ymchwil/tystiolaeth yn cael eu datblygu.
Dyddiad:	Cyfrwng Cymraeg 28/11/2023, Cyfrwng Saesneg 27/11/2023, Mawrth 2024 a Thymor yr Haf 2024



GWEMINARAU MWY ABL A THALENTOG CENEDLAETHOL

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol/Ymarferwyr ym mhob sector
Disgrifiad:	Cyfres o weminarau cenedlaethol a chyfarfodydd rhwydwaith rhanbarthol dilynol, yn edrych ar faterion yn ymwneud ag addysgeg o safbwynt yr her gynyddol ac anghenion dysgwyr MATH: • Gwahaniaethu • Metawybyddiaeth • Asesu Cymheiriaid • Hunan Asesu
Deilliannau:	Datblygu gwybodaeth am y meddylfryd gorau o safbwynt addysg ac addysgeg yn arbennig, gan edrych yn neilltuol ar ddulliau ymarferol i gynyddu'r her a gwella mynediad at ddysgu i bawb. Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r agweddau hyn: • Codi dyheadau dysgwyr • Cefnogi athrawon i gynllunio ar gyfer mwy o her yn y dysgu e.e. drwy waith ar gyn-asesiad a thechnegau cynllunio cyrchfan • Rhoi mynediad at ddysgu i bawb • Datblygu dealltwriaeth ddyfnach o sut i ddatblygu chwilfrydedd dysgwyr a'u hannibyniaeth
Dyddiad:	10/11/2023, 21/02/2024, 22/03/2024 a 14/05/2024

YMCHWIL WEITHREDU - STRATEGAETHAU MATH

Addas ar gyfer:	Clystyrau
Disgrifiad:	Gwahodd ysgolion i wneud cais am gyfle i gynnal ymchwil weithredu. Comisiynu hyd at 12 ysgol i gynnal gwaith ymchwil weithredu/ymchwil ar y cyd i'w rhannu ar draws y rhanbarth o safbwynt strategaethau i: • Godi dyheadau dysgwyr • Cefnogi athrawon i gynllunio ar gyfer mwy o her yn y dysgu e.e. drwy waith ar gyn-asesiad a thechnegau cynllunio cyrchfan • Rhoi mynediad at ddysgu i bawb • Datblygu dealltwriaeth ddyfnach o sut i ddatblygu chwilfrydedd dysgwyr a'u hannibyniaeth
Deilliannau:	• Trwy waith ar y cyd, datblygu a rhannu arferion da yn y meysydd ffocws, er mwyn i ysgolion eraill elwa o roi sylw i gyfleoedd i ddatblygu dysgwyr chwilfrydig.
Dyddiad:	Hanner cyntaf Tymor yr Hydref



DATBLYGU STRATEGAETHAU DARLLEN

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol ac Ymarferwyr (3 i 8) gan gynnwys Ysgolion Arbennig
Disgrifiad:	Hyfforddiant gyda Neil Griffiths ar 'Ddatblygu Strategaethau Darllen a meithrin cariad at ddarllen'. Addas i ymarferwyr 3 i 8 a Chydlynwyr Iaith a Llythrennedd Cynradd
Deilliannau:	• Bydd gan ymarferwyr ddealltwriaeth ddofnach o sut i ddefnyddio strategaethau effeithiol i ddatblygu sgiliau darllen a chariad at ddarllen • Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i gynllunio a darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau darllen o fewn y meysydd darpariaeth ar draws y Cwricwlwm. • Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i gefnogi disgyblion i wella eu sgiliau darllen a darllen a deall.
Dyddiad:	13/11/2023, 14/11/2023, 15/11/2023 a 16/11/2023

GWEITHDY MATEMATEG A RHIFEDD

Addas ar gyfer:	UDA, Athrawon a chymorthyddion sy'n addysgu'r oedran 3 i 8 oed ac Arweinwyr Mathemateg a Rhifedd, Ysgolion Arbennig
Disgrifiad:	Datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r hyfedreddau mathemategol ar gyfer Mathemateg a Rhifedd.
Deilliannau:	• Datblygu dealltwriaeth gysyniadol o rif drwy amrywiaeth o ddulliau addysgegol • Creu heriau mathemategol pwrpasol o fewn y ddarpariaeth • Datblygu gweithdrefnau i ddatblygu rhesymu mathemategol a datrys problemau
Dyddiad:	11/04/2024 – Canolfan Fusnes Conwy 12/04/2024 – Holiday Inn Chester West A55 18/04/2024 – Clwb Pêl-droed Porthmadog 19/04/2024 – Gwesty Carreg Bran, Llanfairpwll



DATBLYGU SGILIAU CYFANNOL A THRAWS-GWRICWLAIDD DRWY'R DYNIAETHAU	
Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol ac Ymarferwyr (3 i 8) gan gynnwys Ysgolion Arbennig
Disgrifiad:	Gweithdy i ymarferwyr sy'n dysgu dysgwyr 3 i 8 oed. Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Sgiliau Cyfannol trwy'r Dyniaethau. Rhannu syniadau ar sut i: - Gynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau trawsgwricwlaidd, creadigol a meddwl yn feirniadol trwy MDaPh y Dyniaethau. - Hyrwyddo dysgu annibynnol drwy brofiadau dysgu dilys a phwrpasol. Rhoddir hyfforddiant i athrawon dros ddwy sesiwn a bydd disgwyliad i ddod i'r ddwy sesiwn
Deilliannau:	- Datblygu dealltwriaeth gynyddol o gynnydd o fewn y 'Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' a'rystyriaethau penodol i'r MDaPh hwn. - Datblygu dealltwriaeth gynyddol o'r Llwybrau Datblygol sy'n arwain at Gam Cynnydd 1 yn y Dyniaethau. - Datblygu dealltwriaeth well o sut i gynllunio a chyflwyno profiadau dysgu cyfoethog o fewn addysgeg sy'n briodol i'r cam datblygiad. - Cefnogi niferoedd mwy o ymarferwyr i lwyddo i gydweithio a thrafod yn broffesiynol - Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch cynnig cyfleoedd gwell i ddisgyblion gymhwyso eu sgiliau trawsgwricwlaidd a chyfannol drwy'r Dyniaethau.
Dyddiad:	Ionawr 2024 ac Ebrill 2024

RHWYDWAITH TYMHOROL 3-8 OED	
Addas ar gyfer:	Arweinwyr ysgol, Arweinwyr Canol, Ymarferwyr (yn cynnwys Cymorthyddion) Cynradd ac Arbennig
Disgrifiad:	Rhwydwaith Tymhorol 3-8 oed. Yn y cyfarfodydd hyn, bydd cyfle i: - Drafod materion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol mewn perthynas â'r cyfnod 3-8 oed - Rhannu 'astudiaeth achos' yn seiliedig ar ffocws y cyfarfod - Rhannu gwybodaeth ac adnoddau o fewn Canolfan Cefnogaeth GwE a Google Classroom 3-8 GwE.
Deilliannau:	- Datblygu ymwybyddiaeth o faterion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol cyfredol - Sicrhau mynediad at arferion da gan ddatblygu'r ymarfer o rannu ymysg ymarferwyr
Dyddiad:	Tachwedd 2023, Mawrth 2024 a Mehefin 2024

**CYNHADLEDD FLYNYDDOL ÔL 16**

Addas ar gyfer:	Arweinwyr ysgol ac Arweinwyr Canol Uwchradd
Disgrifiad:	Cynhadledd flynyddol sy'n gyfle i Arweinwyr Ôl 16 y Rhanbarth ddod at ei gilydd i dderbyn hyfforddiant gyfredol i'w cefnogi yn eu gwaith, i rannu a manteisio ar arferion llwyddiannus ac i rwydweithio. Rhaglen y Gynhadledd i'w bennu.
Deilliannau:	- Datblygu cyfleoedd i rwydweithio a rhannu arferion llwyddiannus - Datblygu ymwybyddiaeth a gwybodaeth er mwyn arwain yn llwyddiannus yn y Maes gan fanteisio ar hyfforddiant berthnasol
Dyddiad:	Mawrth 2024

RHAGLEN GENEDLAETHOL ARWEINYDDIAETH GANOL – ÔL 16

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol Uwchradd
Disgrifiad:	Mae'r rhaglen datblygu arweinyddiaeth ôl-16 wedi'i anelu at ddarparu arweinwyr ôl-16 arweinwyr cyfredol ac fe'i ddyluniwyd i gynnig cyfle i gydweithwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer a wynebu'r heriau arweinyddiaeth ôl-16. Mae'r rhaglen yn rhan annatod o waith y Consortia Addysg Cymraeg wrth gyflwyno'r cynnig cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol Mae'r pynciau sy'n cael eu cwmpasu yn y rhaglen yn cynnwys: - Deall rolau strategol a gweithredol arweinyddiaeth ôl-16 - Hunanwerthuso effeithiol a chynllunio ar gyfer gwelliant - Cynllunio ymyrraeth a lles ar gyfer dysgwyr - Meithrin partneriaethau allanol ar gyfer arfer a darpariaeth effeithiol - Darparu cyngor cynhwysol o ansawdd uchel a chanllawiau i gefnogi pontio dysgwyr, dyheadau a chyrchfannau. Cyflwynir y rhaglen drwy ddull dysgu cyfunol a chaiff ei chyflwyno gan gydweithwyr rhanbarthol arbenigol ôl-16 ac arweinwyr ôl-16 profiadol presennol.
Deilliannau:	Datblygu cyfleoedd i arweinwyr Ôl 16 dderbyn hyfforddiant a chefnogaeth i ddatblygu dealltwriaeth lawn o'u rôl.
Dyddiad:	Hydref 2023 - Mawrth 2024



RHWYDWEITHIAU POST-16	
Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol ac Ymarferwyr Uwchradd
Disgrifiad:	Bydd cyfle i ymuno mewn cyfarfodydd Rhwydweithiau i Arweinwyr ac Athrawon Pwnc Ôl 16. Bydd y Rhwydweithiau yn cyfarfod yn dymhorol ac yn gyfle i drafod y pynciau canlynol: Busnes, Hanes, Daearyddiaeth, BAC, Seicoleg, Cymdeithaseg.
Deilliannau:	• Datblygu cyfleoedd i rwydweithio a rhannu arferion llwyddiannus • Datblygu ymwybyddiaeth a gwybodaeth o'r Maes gan fanteisio ar hyfforddiant berthnasol
Dyddiad:	Rhwydweithiau pynciol yn cyfarfod yn ystod ail hanner pob tymor



AGA ACHREDEDIG - LLWYBRAU ADY	
Addas ar gyfer:	Arweinwyr ysgolion (pob sector)
Disgrifiad:	Cyfres o weithdai ymgynghori a dysgu proffesiynol i randdeiliaid wrth ddatblygu llwybrau ADY ar gyfer AGA achrededig, gan gynnwys rhaglenni seiliedig ar waith dros flwyddyn.
Deilliannau:	- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ADY mewn AGA drwy rannu a myfyrio ar arferion llwyddiannus yn y rhanbarth o ran cefnogi myfyrwyr. - Bydd yr arferion llwyddiannus yn cyfrannu at ddatblygu rhaglen ar gyfer llwybrau ADY newydd mewn AGA fel bod myfyrwyr ar y rhaglenni yn cael darpariaeth ADY unigryw.
Dyddiad:	Parhaus o fis Hydref 2023 ar gyfer ysgolion prosiect


CYMORTH I FENTORIAID YSGOLION	
Addas ar gyfer:	Arweinwyr canol pob sector
Disgrifiad:	Cynigir dysgu proffesiynol rhanbarthol i fentoriaid ysgolion i fodloni eu hanghenion wrth gefnogi myfyrwyr gyda'u Haddysg Gychwynnol i Athrawon.
Deilliannau:	- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth well o'r rôl drwy uwch sgilio mentoriaid mewn ffyrdd i gefnogi myfyrwyr yn yr ysgol. - Datblygu dealltwriaeth ac ymarfer i gefnogi myfyrwyr i wneud cynnydd gwell drwy'r rhaglenni.
Dyddiad:	Amh.

SESIYNAU I FYFYRWYR AGA	
Addas ar gyfer:	Athrawon o bob sector
Disgrifiad:	Bydd staff GwE yn darparu sesiynau cyffredinol i fyfyrwyr sy'n ymateb i themâu cyfredol fel ADY, Cwricwlwm i Gymru, asesu ar gyfer dysgu, sgiliau digidol.
Deilliannau:	- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth well o'r themâu cyfredol gan sicrhau bod myfyrwyr yn uwch sgilio ar sail ffocws rhanbarthol/cenedlaethol dysgu proffesiynol. - Cefnogi myfyrwyr i wneud cynnydd gwell drwy gydol y rhaglenni.
Dyddiad:	Parhaus o fis Medi 2023



CYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL I ANG	
Addas ar gyfer:	ANG/Athrawon Gyrfya Gynnar o bob sector
Disgrifiad:	Bydd ANG yn gallu dilyn cynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol a rhanbarthol i'w cefnogi wrth iddynt ddechrau ar eu gyrfa. Mae GwE hefyd wedi datblygu darpariaeth rhanbarthol unigryw sydd ar gael i athrawon yn eu gyrfa gynnar yn ogystal ag ANG.
Deilliannau:	- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth well o'r themâu cyfredol gan sicrhau bod ANG/athrawon yn eu gyrfa gynnar yn uwch sgilio ar sail ffocws rhanbarthol/cenedlaethol dysgu proffesiynol. - Cefnogi ANG/Athrawon Gyrfya Gynnar i wneud cynnydd gwell gan arwain at fwy o ymarferwyr yn aros yn y maes addysg. - Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gymorth datblygiadol trwy'r llwybr Dysgu Proffesiynol a'r Rhaglenni Arweinyddiaeth.
Dyddiad:	Parhaus o fis Medi 2023 a mis Ionawr 2024

Arweinyddiaeth





RHAGLEN DATBLYGU ARWEINYDDIAETH GANOL

Addas ar gyfer:	Arweinwyr canol sy'n gyfrifol am feysydd penodol ac/neu reoli staff.		
Disgrifiad:	Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon gan y consortia rhanbarthol. Mae'r rhaglen yn hyrwyddo arweinyddiaeth effeithiol iawn trwy hunan arfarnu a myfyrio, gan archwilio'r berthynas rhwng arweinyddiaeth, ysgolion llwyddiannus a'r gymuned ehangach. Mae'r modiwlau craidd yn cynnwys: Modiwl Datblygu 1: Beth yw arweinyddiaeth ganol effeithiol yn y cyd-destun presennol? Modiwl Datblygu 2: Arwain addysgeg, cyflwyno addysgu a dysgu effeithiol Modiwl Datblygu 3: Rheoli; strategaethau, strwythurau a systemau Modiwl Datblygu 4: Cyflwyno mwy trwy gydweithrediad effeithiol Modiwl Datblygu 5: Arfarnu ac effaith Bydd pob cyfranogwr yn cwblhau Tasg Profiad Arweinyddiaeth trwy ddefnyddio'r canfyddiadau ymchwil diweddaraf wrth ddatblygu eu sgiliau arweinyddiaeth. Hefyd, bydd gan bob cyfranogwr fentor yn yr ysgol a cheir sesiynau rhwydweithio â chymheiriaid a fydd yn arwain at rannu syniadau, cefnogaeth gan gymheiriaid a datrys problemau ar y cyd, a fydd yn darparu cyfle i ddysgu gan eraill.		
Deilliannau:	Bydd cyfranogwyr yn: • datblygu dealltwriaeth o'r rôl • datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o'r agenda diwygio cenedlaethol • datblygu eu harfer yn unol â'r safonau arweinyddiaeth ffurfiol • paratoi ar gyfer ymgysylltiad effeithiol gydag elfennau pwrpasol o wybodaeth arbenigol a sgiliau; MDaPh, ADY, Cymraeg, ysgolion ffydd, ysgolion bach ac ati.		
Dyddiad:	Sesiwn briffio rhithiol: 30/11/2023		
	Cyfrwng Cymraeg: Modiwl 1: 25/01/2024 Modiwl 2: 13/03/2024 Modiwl 3: 02/05/2024 Modiwl 4: 19/06/2024	Cyfrwng Saesneg: Carfan 1 Modiwl 1: 17/01/2024 Modiwl 2: 06/03/2024 Modiwl 3: 24/04/2024 Modiwl 4: 12/06/2024	Cyfrwng Saesneg: Carfan 2 Modiwl 1: 18/01/2024 Modiwl 2: 07/03/2024 Modiwl 3: 25/04/2024 Modiwl 4: 13/06/2024 Modiwl 5: 14/11/2024



RHAGLEN DATBLYGU UWCH ARWEINWYR

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am agwedd ar arweinyddiaeth ar draws sefydliad. Mae hyn yn cynnwys uwch arweinwyr cwrwclwm/bugeiliol ac aelodau o’r uwch dîm arwain, megis penaethiaid cynorthwyol neu ddirprwy benaethiaid.					
Disgrifiad:	Cydlynir y rhaglen genedlaethol hon gan y consortia rhanbarthol. Mae symud o arweinyddiaeth ganol i arweinyddiaeth uwch yn gofyn am newid i syniadaeth ysgol gyfan, y sgiliau i reoli timau cymhleth a blaenoriaethau cystadleuol gan sicrhau eich bod yn cadw dysgwyr yng nghanol popeth rydych chi’n ei wneud. Mae’r modiwlau craidd yn cynnwys: Modiwl 1: Gwerthoedd ac Ymagweddau, Hunan-Fyfyr Modiwl 2: Gweithio gydag Eraill Modiwl 3: Hyfforddi a Mentora Modiwl 4: Addysgeg Modiwl 5: Cydweithio Mae cyflwyno’r Rhaglen yn cynnwys mentora, rhwydweithiau cymorth cymheiriaid a Hunan Adolygiad Safonau Arweinyddiaeth unigol. Bydd pob cyfranogwr yn ymgymryd â Thasg Profiad Arweinyddiaeth gan ddefnyddio’r canfyddiadau ymchwil diweddaraf wrth ddatblygu eu sgiliau arwain. Bydd cyfranogwyr hefyd yn cael Hyfforddwr Arweinyddiaeth a fydd yn cefnogi’r cyfranogwyr ac yn hwyluso’r rhwydwaith cymorth cymheiriaid. Bydd cyfranogwyr yn ymgysylltu â sesiynau rhwydwaith cymheiriaid a fydd yn arwain at rannu syniadau, cefnogaeth cymheiriaid a datrys problemau ar y cyd, gan roi’r cyfle i ddysgu gan eraill ar draws y system.					
Deilliannau:	• Bydd cyfranogwyr yn: • Datblygu eu dealltwriaeth o rôl uwch arweinydd ymhellach • Datblygu’r wybodaeth a’r sgiliau y dylai uwch arweinydd effeithiol eu gwybod a gallu eu mabwysiadu • Cael cyfle i ddatblygu’r ymddygiadau arweinyddiaeth sy’n ofynnol ar gyfer uwch arweinydd effeithiol • Datblygu eu dealltwriaeth o’r agenda diwygio cenedlaethol ymhellach • Datblygu eu harfer o fewn y safonau arweinyddiaeth ffurfiol.					
Dyddiad:	Sesiwn briffio rhithiol:  29/11/2023 <table><tr><td>Cyfrwng Cymraeg: Modiwl 1:07/02/24 Modiwl 2:20/03/24 Modiwl 3:16/05/24 Modiwl 4:03/07/24 Modiwl 5 Sesiwn 1:02/10/24 Modiwl 5 Sesiwn 2:21/11/24</td><td>Cyfrwng Saesneg Cynradd: Modiwl 1:31/01/24 Modiwl 2:21/03/24 Modiwl 3:08/05/24 Modiwl 4:27/06/24 Modiwl 5 Sesiwn 1: *25/09/24 Modiwl 5 Sesiwn 2:21/11/24</td><td>Cyfrwng Saesneg Uwchradd: Modiwl 1:01/02/24 Modiwl 2:19/03/24 Modiwl 3:09/05/24 Modiwl 4:26/06/24 Modiwl 5 Sesiwn 1: *26/09/24 Modiwl 5 Sesiwn 2:21/11/24</td></tr></table> * Rhithiol * Rhithiol			Cyfrwng Cymraeg: Modiwl 1:07/02/24 Modiwl 2:20/03/24 Modiwl 3:16/05/24 Modiwl 4:03/07/24 Modiwl 5 Sesiwn 1:02/10/24 Modiwl 5 Sesiwn 2:21/11/24	Cyfrwng Saesneg Cynradd: Modiwl 1:31/01/24 Modiwl 2:21/03/24 Modiwl 3:08/05/24 Modiwl 4:27/06/24 Modiwl 5 Sesiwn 1: *25/09/24 Modiwl 5 Sesiwn 2:21/11/24	Cyfrwng Saesneg Uwchradd: Modiwl 1:01/02/24 Modiwl 2:19/03/24 Modiwl 3:09/05/24 Modiwl 4:26/06/24 Modiwl 5 Sesiwn 1: *26/09/24 Modiwl 5 Sesiwn 2:21/11/24
Cyfrwng Cymraeg: Modiwl 1:07/02/24 Modiwl 2:20/03/24 Modiwl 3:16/05/24 Modiwl 4:03/07/24 Modiwl 5 Sesiwn 1:02/10/24 Modiwl 5 Sesiwn 2:21/11/24	Cyfrwng Saesneg Cynradd: Modiwl 1:31/01/24 Modiwl 2:21/03/24 Modiwl 3:08/05/24 Modiwl 4:27/06/24 Modiwl 5 Sesiwn 1: *25/09/24 Modiwl 5 Sesiwn 2:21/11/24	Cyfrwng Saesneg Uwchradd: Modiwl 1:01/02/24 Modiwl 2:19/03/24 Modiwl 3:09/05/24 Modiwl 4:26/06/24 Modiwl 5 Sesiwn 1: *26/09/24 Modiwl 5 Sesiwn 2:21/11/24				



RHAGLEN DATBLYGU PENAEITHIAID NEWYDD EU PENODI A PHENAEITHIAID DROS DRO

Addas ar gyfer:	Gwahoddir Peneithiaid Newydd eu Penodi a Dros Dro yng Nghymru i gymryd rhan yn y Rhaglen, gyda mynediad at y Rhaglen o'r mis Medi cyntaf mewn swydd. [Mae Peneithiaid Dros Dro yn gymwys os disgwylir iddynt fod yn y swydd am o leiaf dau dymor].	
Disgrifiad:	Cyflwynir y rhaglen gan y Consortia Rhanbarthol a'u partneriaid. Dyma brif agweddau'r rhaglen: - Mae wedi ei chynllunio yn unol â'r Model Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol - Mae'r cynnwys yn seiliedig ar y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, Datblygu Ysgolion yng Nghymru fel Sefydliadau sy'n Dysgu ac Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl - Mae hyd y rhaglen a dilyniant y gweithgareddau dysgu yn gyson drwy Gymru - Mae disgwyliadau cyffredin am gynnydd cyfranogwyr a sut bydd hyn yn effeithio ar eu harfer arweinyddol Cynhelir y Rhaglen dros gyfnod o ddwy flynedd ac mae angen ymrwymo i gyfwerth ag wyth diwrnod yn ystod y cyfnod hwn. Mae achredu ffurfiol ar gael, ac mae cyfranogwyr yn gallu dewis yr opsiwn hwnnw.	
Deilliannau:	Mae'r rhaglen yn darparu hawl cyffredin, gyda rhywfaint o hyblygrwydd, i fodloni anghenion a chyd-destunau penodol cydweithwyr mewn lleoliadau ac ardaloedd daearyddol gwahanol. Mae wedi ei chynllunio i sicrhau bod gennych yr un mynediad at yr un dysgu proffesiynol safon uchel â'ch cydweithwyr, ble bynnag rydych yn gweithio fel Pennaeth newydd yng Nghymru. Cynlluniwyd y rhaglen i gefnogi Peneithiaid Newydd i ennill yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i weithio'n effeithiol ar lefel leol ynghyd â darparu datblygiad unigol sy'n canolbwyntio ar yr wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol i fod yn Bennaeth llwyddiannus.	
Dyddiad:	Carfan 5: 2022-2024 Carfan 6: 2023-2025 Sesiynau briffio rhithiol cenedlaethol:  Cyfrwng Cymraeg: 08/11/2023 Modiwl 1: 22/11/2023 Modiwl 2: 17/01/2024 Modiwl 3: 11/03/2024 (l'w gadarnhau) Modiwl 4: 20/05/2024 (l'w gadarnhau) Rhanbarthol: Modiwl 1 a 2: 06/12/2023	Rhanbarthol: Modiwl 5 – 20/05/2024  Cyfrwng Saesneg: 09/11/2023 Modiwl 3 a 4: 18/04/2024



RHAGLEN DATBLYGU PENAEITHIAID PROFIADOL	
Addas ar gyfer:	Mae'r Rhaglen hon ar gyfer penaeithiaid profiadol sy'n dymuno datblygu eu harfer bresennol ymhellach.
Disgrifiad:	Cydlynir y Rhaglen genedlaethol hon gan y consortia rhanbarthol. Crëwyd y Rhaglen hon er mwyn galluogi penaeithiaid profiadol i fyfrio ar eu perfformiad presennol a phenderfynu ar eu camau nesaf o ran sicrhau arweiniad effeithiol. Bydd y rhaglen yn darparu her a chefnogaeth a fydd wedi'u teilwra'n bersonol i bob un sy'n cymryd rhan; amser i drafod syniadau, damcaniaethau ac offer arweinyddiaeth; a'r cyfle i elwa ac i helpu eraill i lenwi'r rôl yn llwyddiannus. Bydd cyfranogwyr yn: • Myfrio ar eu harddull arwain eu hunain a sut mae eu harweinyddiaeth yn effeithio ar eraill • Myfrio ar ystod o arddulliau arwain • Deall damcaniaeth newid a sut mae hyn yn effeithio ar eu harweinyddiaeth ar y daith ddiwygio drawsnewidiol • Cydweithio ag eraill i arwain eu hysgolion yn effeithiol ac i effeithio'n gadarnhaol ar arweinyddiaeth ledled Cymru • Ymgorffori diwylliant ac arfer o arloesi priodol ar draws a thu hwnt i'w hysgol
Deilliannau:	Hyrwyddo arweinyddiaeth hynod effeithiol drwy hunan-werthuso a myfrio, gan archwilio'r berthynas rhwng arweinyddiaeth, ysgolion llwyddiannus a'r gymuned ehangach.
Dyddiad:	I'w gadarnhau



RHAGLEN YMSEFYDLU I GYNORTHWYWYR ADDYSGU NEWYDD (DIGIDOL)

Addas ar gyfer:	Cynorthwywyr Addysgu sydd newydd eu penodi i'r swydd
Disgrifiad:	Cyflwynir y Rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan ddigidol ac mae modd ei chwblhau ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwywyr ac i'w lleoliad. Mae'r modiwlau yn archwilio: • Cyd-destun Addysg yng Nghymru – fy nghyfrifoldebau fel gweithiwr proffesiynol ym myd addysg yng Nghymru • Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu • Cwricwlwm Cymru a fframweithiau cefnogol • Addysgeg, gan ddatblygu fy nghrefft i gefnogi dysgwyr.
Deilliannau:	Bydd unigolion yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddod yn gynorthwywyr addysgu llwyddiannus yn eu lleoliad.
Dyddiad:	Adnodd digidol parhaus

RHAGLEN AR GYFER CYNORTHWYWYR ADDYSGU WRTH EU GWAITH

Addas ar gyfer:	Cynorthwywyr Addysgu sydd wedi bod mewn swydd ers dwy flynedd neu fwy, fyddai'n croesawu diweddariad ar gyd-destun newidiol y proffesiwn.
Disgrifiad:	Darperir y rhaglen genedlaethol hon yn rhanbarthol gan GwE drwy glystyrau ysgolion ac mae'n cwmpasu: • Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu • rôl y Cynorthwydd Addysgu a sut i ddatblygu'n broffesiynol • sut mae polisiau a fframweithiau yn effeithio ar rôl y Cynorthwywyr Addysgu • newidiadau ym myd Addysg a pha mor berthnasol ydynt yn eu lleoliadau eu hunain • creu a gwella rhwydweithiau a chydweithio proffesiynol ymysg Cynorthwywyr Addysgu o fewn a rhwng ysgolion.
Deilliannau:	Cynorthwywyr Addysgu â gwybodaeth am y safonau proffesiynol, strategaethau perthnasol cyfredol i gefnogi eu harferion ac ystod o syniadau a strategaethau i ysbrydoli proffesiynoldeb yn ôl yn yr ysgol.
Dyddiad:	Parhaus



RHAGLEN DATBLYGU DARPAR CALU

Addas ar gyfer:	Cynorthwywyr Addysgu profiadol sy'n dymuno datblygu eu sgiliau ymhellach a nodi eu parodrwydd ar gyfer Asesiad CALU.		
Disgrifiad:	Rhaglen genedlaethol yw hon a gydlynir gan gonsortia rhanbarthol, sy'n defnyddio ystod o bartneriaid hwyluso, mewn cydweithrediad ag Awdurdodau Lleol. Mae'n rhaglen 4 diwrnod a ddarperir dros 2 dymor ac mae'n archwilio'r safonau proffesiynol newydd yn fanwl. Mae'r rhaglen yn archwilio rôl hanfodol Cynorthwywyr Addysgu wrth gynorthwyo'r disgyblion a'r ysgolion i gyflawni amcanion y Genhadaeth Genedlaethol, Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu a datblygu'r Cwricwlwm Newydd.		
Deilliannau:	Ar ôl cwblhau'r rhaglen hon yn llwyddiannus, mae'r Cynorthwywyr Addysgu mewn sefyllfa gref iawn i nodi eu parodrwydd ar gyfer asesiad CALU.		
Dyddiad:	Carfan 7:		
	Cyfrwng Cymraeg: Modiwl 1: 18/10/2023 Modiwl 2: 22/10/2023 Modiwl 3: 24/01/2024 Modiwl 4: 13/03/2024		Cyfrwng Saesneg: Modiwl 1: 27/10/2023 Modiwl 2: 24/11/2023 Modiwl 3: 02/02/2024 Modiwl 4: 22/03/2024
	Cohort 8:		
	Cyfrwng Cymraeg: Modiwl 1: Ionawr/Chwefror 2024 Modiwl 2: Mawrth 2024 Modiwl 3: Ebrill/Mai 2024 Modiwl 4: Mehefin/Gorffennaf 2024		Cyfrwng Saesneg: Modiwl 1: Ionawr/Chwefror 2024 Modiwl 2: Mawrth 2024 Modiwl 3: Ebrill/Mai 2024 Modiwl 4: Mehefin/Gorffennaf 2024

RHAGLEN AR GYFER CYNORTHWYWYR ADDYSGU EITHRIADOL

Addas ar gyfer:	Cynorthwywyr Addysgu sydd yn eithriadol yn eu gwaith, neu sydd â'r potensial i fod yn eithriadol.
Disgrifiad:	Darperir y rhaglen hon yn rhanbarthol gan GwE ac mae'n cynnwys: - Dod i ddeall beth yw cymhorthydd addysgu eithriadol - Diffiniadau allweddol ac edrych ar gryfderau a meysydd i'w datblygu - Negeseuon newydd am wahaniaethu - Creu ac arwain ar brosiect yn yr ysgol - Beth yw cwestiynu effeithiol - Cynllunio, gweithredu a gwerthuso



Deilliannau:	- Cynorthwywyr Addysgu yn rhannu syniadau a strategaethau i'w helpu i symud yr ysgol yn ei blaen. - Bydd yr aelodau yn magu hyder i allu lleisio eu barn a'u syniadau a theimlo y gallent arwain eu datblygiad eu hunain gyda phwyslais ar hwyluso'r profiad dysgu i ddisgyblion. - Cymorthyddion prif lif wedi eu uwchsgilio mewn amryfal feysydd arbenigol er mwyn cyfoethogi eu harfer o ddydd i ddydd.
Dyddiad:	Cohort 1: 5 sesiwn hanner diwrnod yn ystod Tymor yr Hydref 2023 Cohort 2: sesiwn hanner diwrnod yn ystod Tymor y Gwanwyn 2024

HYFFORDDIANT STATWS YMARFERYDD ACHREDEDIG DYSLECSIA

[mewn cydweithrediad â Chanolfan Dyslecsia Miles, Prifysgol Bangor]

Addas ar gyfer:	Cynorthwywyr Addysgu neu CALU sydd y awyddus i ymgyfarwyddo â dulliau o addysgu dysgwyr dyslecsig, ac hyfforddi er mwyn derbyn Statws Ymarferydd Achrededig Dyslecsia.
Disgrifiad:	Darperir y rhaglen hon gan Canolfan Dyslecsia Miles, Prifysgol Bangor ac mae'n cynnwys: - Ymgyfarwyddo myfyrwyr â dulliau o addysgu dysgwyr dyslecsig, a chyflwyno'r egwyddorion sy'n sail i'r dulliau hyn. - Trafodir damcaniaethau am ddyslecsia – natur yr anhawster a'i achosion, a thrafodir anawsterau cysylltiedig ag iaith a dysgu, gan gynnwys mathemateg. - Mae'r modiwl yn cynnwys gwaith addysgu ac asesu ymarferol gorfodol sy'n cysylltu mewn gwahanol ffyrdd â seminarau'r cwrs ac sy'n darparu'r prif ddeunydd ar gyfer yr aseiniadau. - Nod y modiwl yw addysgu a galluogi aelodau'r cwrs i asesu a nodi anawsterau disgybl penodol wrth ddarllen, sillafu a llawysgrifen a llunio rhaglenni addas ar gyfer ymyraethau. - Anogir dyfeisgarwch a gwreiddioldeb dulliau addysgu, yn enwedig wrth ddefnyddio gemau a deunydd gweledol i gynorthwyo dysgu pellach. - Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal dros ddau dymor a bydd yn cynnwys 40 awr o astudio dros chwe hanner diwrnod o hyfforddiant y tymor, gan orffen gydag un diwrnod llawn o hyfforddiant ar ddiwedd yr ail dymor.
Deilliannau:	- Yn dilyn asesiad, gall arwain tuag at statws ymarferydd Achrededig Dyslecsia - Cymorthyddion wedi cymhwyso fel Athrawon Arbenigol Dyslecsia. - Cymorthyddion prif lif wedi eu uwchsgilio mewn maes arbenigol
Dyddiad:	Bydd yr hyfforddiant yn dechrau yn nhymor yr Hydref 2023 tan Pasg 2024.



DIWRNOD DATBLYGU CALU

Addas ar gyfer:	Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch sydd wedi derbyn statws CALU Llywodraeth Cymru
Disgrifiad:	Darperir y Diwrnod Datblygu CALU yn Genedlaethol, ac mae'n cynnwys: • Cyfle i glywed am arferion gorau y rhanbarth mewn addysg dan arweiniad CALU • Cael ysbrydoliaeth, a bod yn barod i roi'r arferion gorau ar waith wedi'r diwrnod proffesiynol hwn • Siaradwr gwadd – Mr P. ICT • Creu a gwella rhwydweithiau a chydweithio proffesiynol ymysg cynorthwywyr addysgu, o fewn ysgolion, a rhwng ysgolion
Deilliannau:	• Arddangosfeydd yn rhoi cyfle i CALU dderbyn datblygiad proffesiynol pellach drwy rannu arferion da. • Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch â gwybodaeth am strategaethau perthnasol cyfredol i gefnogi eu harferion ac ystod o syniadau a strategaethau i ysbrydoli proffesiynoldeb yn ôl yn yr ysgol. • Cynyddu hyder a statws y gweithlu drwy ddatblygiad proffesiynol sy'n arwain at gyfleoedd i ddatblygu eu gyrfa ymhellach.
Dyddiad:	11/03/2024

RHWYDWAITH I GYNORTHWYWYR A CALU

Addas ar gyfer:	Cynorthwywyr Addysgu ac Chynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch ar draws y rhanbarth.
Disgrifiad:	Darperir y rhwydwaith rhanbarthol hwn gan GwE yn rhithiol, ac mae'n cwmpasu: • Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu • Defnyddio'r Safonau Proffesiynol er mwyn datblygu'n broffesiynol • Cyfle i gynorthwywyr a CALU rannu arferion effeithiol • Cyfle i rannu materion cyfredol y byd addysg • creu a gwella rhwydweithiau a chydweithio proffesiynol ymysg Cynorthwywyr Addysgu
Deilliannau:	• Rhannu arbenigeddau ar draws y rhanbarth. • Cael ysbrydoliaeth, a bod yn barod i roi'r arferion effeithiol ar waith. • Derbyn gwybodaeth am faterion cyfredol y byd addysg.
Dyddiad:	Yn rhithiol yn ystod ail hanner pob tymor

**RHAGLEN CYMELL A MENTORA**

Addas ar gyfer:	Penaethiaid ac/neu'r Uwch Dîm Rheoli ar gyfer datblygu eu sgiliau Cymell a Mentora
Disgrifiad:	Mae'r Rhaglen genedlaethol hon yn cynnwys chwe sesiwn wythnosol 3 awr o hyd. Mae'n cynnwys gweithdai rhyngweithiol gyda digon o gyfleoedd i rannu i ystafelloedd trafod a chwarae rôl er mwyn datblygu dealltwriaeth.
Deilliannau:	Bydd y Rhaglen yn arfogi mynychwyr gyda strategaethau a modelau er mwyn cefnogi gwaith cymell a mentora effeithiol wrth i gymell gael ei wreiddio o fewn y sefydliad.
Dyddiad:	I'w gadarnhau

**YSGOLION FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU****YSGOLION FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU - GWEITHDAI**

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Ysgolion ac Arweinwyr Canol ym mhob sector			
Disgrifiad:	Cyfres o weithdai i godi mwy o ymwybyddiaeth o Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu (YSD) a rhannu arferion effeithiol.			
Deilliannau:	- Datblygu dealltwriaeth ddofnach o egwyddorion YSD wrth arwain newid. - Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gan ymarferwyr effeithiol ar sut maent wedi addasu'r model YSD i'w hysgol. - Arweinwyr sydd wedi bod yn bresennol yn y gweithdai i fod wedi cwblhau'r arolwg YSD. - Gall pob arweinydd sydd wedi bod yn y gweithdy fyfyrir ar ganfyddiadau'r arolwg YSD yn eu lleoliad eu hunain a chynllunio'n briodol.			
Dyddiad:	Gwynedd:	25/10/2023	Conwy:	08/11/2023
	Sir Ddinbych:	10/11/2023	Wrecsam:	24/10/2023
	Sir y Fflint:	07/11/2023	Fflint a Wrecsam:	07/11/2023



RHAGLEN PARTNERIAETH YSGOLION - RHAGOR O GYMORTH/HYFFORDDIANT I GARFAN 3

Addas ar gyfer:	Clystyrau / Cynghreiriau (pob sector)
Disgrifiad:	Digwyddiadau hyfforddiant uwch a chynhwysedd i ysgolion Carfan 3 i wreiddio eu rhaglen adolygu cymheiriaid ymhellach yn eu clwstwr/cynghrair.
Deilliannau:	Gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i wreiddio Cylch Adolygu Cymheiriaid a Chylch Gwelliant effeithiol fel rhan greiddiol o gylch gwella clwstwr/cynghrair o ysgolion.
Dyddiad:	Parhaus



DATBLYGU ARWEINYDDIAETH AR BOB HAEN

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Ysgolion o sectorau amrywiol
Disgrifiad:	Byddwn yn cynnig sesiynau i gefnogi Arweinwyr Ysgolion ymateb yn llwyddiannus i faterion cyfoes sy'n amlygu o fewn y system addysg. Bydd y sesiynau hyn yn canolbwyntio ar gefnogi Arweinwyr Ysgolion i yrru gwelliannau yn llwyddiannus yn eu hysgolion ac yn rhoi cefnogaeth/arweiniad strategol ar feysydd megis: • Gweledigaeth, Strategaeth a Polisiâu • Prosesau Cynllunio Gwelliant • Prosesau Hunanwerthuso a Monitro Bydd pwyslais y sesiynau hyn yn cael ei bennu yn ôl blaenoriaethau lleol, rhanbarthol ac/neu genedlaethol sy'n dod i'r amlwg. Byddwn yn ceisio ymateb i anghenion datblygu ysgolion sy'n codi o'u Cynlluniau Gwella ac yn ystyried unrhyw themâu eraill – e.e. agweddau sy'n codi'n gyson fel argymhellion gan Estyn. Ymysg themâu eraill, disgwylir y bydd sesiynau penodol yn rhoi sylw i arwain gwelliannau o fewn y themâu isod: • 'Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd' • Datblygu dealltwriaeth o gynnydd gan ystyried yr egwyddorion cynnydd, DHSB a phwysigrwydd cynnydd wrth gynllunio'r cwricwlwm ac asesu. • Sefydlu prosesau Deialog Broffesiynol effeithiol o fewn ac ar draws ysgolion/sectorau • Datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd ar draws y MDaPh drwy strategaethau a chynllunio ysgol gyfan effeithiol.
Deilliannau:	• Dyfnhau ymwybyddiaeth o'r materion cyfoes sy'n amlygu o fewn y system addysg. • Datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut i arwain gwelliannau yn strategol o fewn y materion hyn yn llwyddiannus yn unol â blaenoriaethau'r ysgol, blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.
Dyddiad:	I'w gadarnhau



YMATEB I ANGHENION Y SYSTEM – GWEITHDAI DATBLYGOL I YMARFERWYR

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol ac Ymarferwyr o sectorau amrywiol
Disgrifiad:	Byddwn yn cynnig sesiynau i gefnogi Arweinwyr Canol ac Ymarferwyr i ymateb yn llwyddiannus i faterion cyfoes sy'n amlygu o fewn y system addysg. Bydd y sesiynau hyn yn gyfuniad o gyflwyno theori/gwybodaeth berthnasol gydag enghreifftiau ymarferol sy'n dod i'r amlwg o ysgolion ar draws y Rhanbarth er mwyn cefnogi'r ymarferwyr i weithredu'n llwyddiannus yn ôl yn yr ysgol. Bydd disgwyl i ymarferwyr sy'n mynychu'r sesiynau hyn adnabod 'ymrwymiad i weithredu' – h.y. gosod disgwyliad arnyn nhw eu hunain i weithredu ar agwedd(au) ar yr hyfforddiant cyn dod i rannu unrhyw llwyddiannau neu negeseuon mewn cyfarfod Rhwydweithio dilynol. Ymysg themâu eraill, disgwylir y bydd sesiynau penodol yn rhoi sylw i arwain gwelliannau o fewn y themâu isod: • 'Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd' • Datblygu dealltwriaeth o gynnydd gan ystyried yr egwyddorion cynnydd, DHSB a phwysigrwydd cynnydd wrth gynllunio'r cwricwlwm ac asesu. • Sefydlu prosesau Deialog Broffesiynol effeithiol o fewn ac ar draws ysgolion/sectorau • Datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd ar draws y MDaPh drwy strategaethau a chynllunio ysgol gyfan effeithiol.
Deilliannau:	• Dyfnhau ymwybyddiaeth o'r materion cyfoes sy'n amlygu o fewn y system addysg. • Datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut i arwain a gweithredu gwelliannau o fewn y materion hyn yn llwyddiannus yn unol â chyfrifoldebau.
Dyddiad:	I'w gadarnhau

YMATEB I ANGHENION Y SYSTEM – RHWYDWEITHIO A RHANNU ARFERION

Addas ar gyfer:	Rhwydweithiau Arweinwyr Canol, Ymarferwyr o sectorau amrywiol
Disgrifiad:	Byddwn yn cynnig cyfleoedd i Arweinwyr Canol ac Ymarferwyr i rwydweithio a rhannu arferion gyda'i gilydd er mwyn ymateb yn llwyddiannus i faterion cyfoes sy'n amlygu o fewn y system addysg. Bydd y sesiynau hyn yn gyfle i ymarferwyr rannu sut maent wedi ymateb i weithdai blaenorol gan gyfeirio at eu llwyddiannau ac unrhyw wersi maent wedi'u dysgu wrth ymgymryd gyda'r gwaith. Disgwylir y bydd cyfleoedd i rwydweithio o fewn amrywiol agweddau a themâu yn cynnwys y canlynol: • Disgyblaethau Uwchradd (Cymraeg, Mathemateg, Gwyddoniaeth)



	- Themâu Trawsgwricwlaidd (Llythrennedd, Rhifedd, Cymhwysedd Digidol) - Addysgeg Dysgu Sylfaen (3–8); Addysgeg (8–11); Addysgeg (Uwchradd) - Ieithoedd Tramor - Pontio
Deilliannau:	- Dyfnhau ymwybyddiaeth o'r materion cyfoes sy'n amlygu o fewn y system addysg. - Datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut i arwain a gweithredu gwelliannau o fewn y materion hyn yn llwyddiannus yn unol â chyfrifoldebau - Manteisio a chyfrannu at arferion llwyddiannus sy'n dod i'r amlwg ar draws y system.
Dyddiad:	I'w gadarnhau

CYNHADLEDD I RANNU ARFERION LLWYDDIANNUS AR DRAWS Y RHANBARTH

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Ysgol/Arweinwyr Canol
Disgrifiad:	Bydd ein Cynhadledd flynyddol yn gyfle i ddathlu llwyddiannau o amrywiol ysgolion a chlystyrau ar draws y Gogledd. Nod y diwrnod yw darparu cyfle i arweinwyr ddatblygu ymwybyddiaeth o'r arferion sy'n dod i'r amlwg o'n ysgolion ar draws y Rhanbarth. Drwy wneud hyn, byddent wedi eu huwchsgilio i gymhwyso'r hyn a ddysgwyd i'w sefydliadau eu hunain gan eu harfogi i arwain gwelliannau pellach yn llwyddiannus. Bydd cyfle i dreulio diwrnod yn gweld a gwrandao ar ysgolion yn rhannu eu profiadau trwy weithdai a stondinau marchnad. Yn ogystal bydd cyfle i wrando ar arbenigwyr yn rhannu o'u profiadau ac yn disgrifio'r gefnlen rhyngwladol
Deilliannau:	- Arweinwyr yn datblygu ymwybyddiaeth o arferion llwyddiannus ar draws y Rhanbarth - Arweinwyr yn cymhwyso ac addasu yr hyn a welwyd/ddysgwyd yn llwyddiannus er mwyn arwain gwelliannau pellach yn eu sefydliadau eu hunain. - Ysgolion yn cyfrannu'r llwyddiannus at system sy'n hunanwella
Dyddiad:	06/10/2024

RHWYDWEITHIAU

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr o bob sector
Disgrifiad:	Byddwn yn cynnig cyfleoedd i ymarferwyr ar draws y system i rannu arferion llwyddiannus ac i ddysgu o'i gilydd. Bydd rhai o'r sesiynau yn gyfle i rannu negeseuon pwysig Byddwn yn cynnal amryw o Rwydweithiau gwahanol er mwyn rhannu negeseuon pwysig, cynnig cyfarfodydd dilynol i ymarferwyr rannu sut maent ymateb i sesiynau ddatblygol blaenorol a beth maent wedi ddysgu, ac er mwyn sicrhau cyfleoedd pwrpasol i ymarferwyr rwydweithio, creu perthynas ac annog cydweithio pellach



	Disgwylir y bydd cyfleoedd i Rhwydweithio o fewn amrywiol agweddau a themâu yn cynnwys y canlynol: • Disgyblaethau Uwchradd (Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth) • Sgiliau Trawsgwricwlaidd (Llythrennedd, Rhifedd, Cymhwysedd Digidol) • Addysgeg Dysgu Sylfaen (3 – 8) • Addysgeg (8 – 11) • Addysgeg (Uwchradd) • Ieithoedd Modern Tramor • Pontio • Lles
Deilliannau:	• Ymarferwyr ar draws y system yn datblygu cysylltiadau, yn rhannu arferion llwyddiannus a chyfrannu at system sy'n hunanwella • Sicrhau cyfleoedd i fyfyrion ar yr hyn sydd wedi/heb weithio yn dilyn cyfnod o weithredu yn sgil hyfforddiant • Sicrhau cyfleoedd i rannu negeseuon pwysig gydag ymarferwyr ar draws y gyfundrefn
Dyddiad:	I'w gadarnhau

FFRAMWAITH GWELLA YSGOLION

Addas ar gyfer:	Arweinwyr ysgolion
Disgrifiad:	Pwrpas craidd y sesiynau: • Dilyn ymlaen o'r sesiynau hyfforddi blaenorol i roi cyfleoedd i ddatblygu ymhellach y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar arweinwyr ysgolion i roi'r FfGY ar waith. • Darparu calendr o gyfleoedd i ysgolion fynychu gweithdai ar wahanol agweddau ar y FfGY, er mwyn meddwl am eu harferion ac adnabod meysydd i'w gwella. • Rhoi eglurder i arweinwyr ysgolion, a'u helpu i sicrhau eu bod yn gweithio o fewn ethos y FfGY ac yn datblygu diwylliant o hunan-welliant parhaus. • Rhoi sicrwydd i arweinwyr ysgolion drwy eu helpu i adnabod prosesau'r FfGY sydd eisoes ar waith mewn ysgolion a rhwng ysgolion. • Ystyried sut y gall uwch arweinwyr uwch sgilio staff a llywodraethwyr a chynyddu capasiti arweinyddiaeth ar draws yr ysgol. • Dros amser, adolygu a rhannu profiadau o weithredu'r FfGY ac edrych beth yw'r heriau a'r goblygiadau i arweinwyr ysgolion.
Deilliannau:	1. Trosolwg o'r FfGY • Ymwybyddiaeth o sut mae'r FfGY a Fframwaith Estyn yn cyd-fynd • Gwella ymwybyddiaeth o'r hyn a ofynnir gan y FfGY i sicrhau atebolrwydd cadarn ar lefel ysgol • Deall sut mae'r ysgol yn elwa ar brosesau gwella ysgol effeithiol



	2. Cynhyrchu crynodeb o'r FfGY • Cyngor ymarferol ar gynhyrchu crynodeb o'r FfGY ar ffurf dogfen gryno i amrywiol randdeiliaid • Hyrwyddo'r crynodeb o'r FfGY fel cyfle i dynnu ynghyd a chysoni'r prosesau o fewn y cylch gwella • Ystyried prosesau i gasglu tystiolaeth i gefnogi'r farn ar: - Weledigaeth ac Arweinyddiaeth - Cwricwlwm, Dysgu ac Addysgu - Lles, Tegwch a Chynhwysiant 3. Hunanwerthuso effeithiol o fewn y FfGY • Rhannu arferion effeithiol i sicrhau bod yr hunanwerthuso yn ddibynadwy ac yn bwydo ac arwain gwelliant. • Ystyried ffyrdd i ddatblygu gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol ymysg yr holl staff i gefnogi gwelliant parhaus a gwaith tîm effeithiol • Ystyried y diffiniad o ddeialog broffesiynol a'i photensial 4. Cynllunio gweithredu effeithiol o fewn y FfGY • Gwneud 'gwella'r addysgu' yn broses allweddol sy'n cyfrannu at wella cynnydd a lles disgyblion • Meddwl am ffyrdd i sicrhau bod pwyslais clir mewn cynlluniau gweithredu ar wella deilliannau disgyblion 5. Asesu cynnydd yn effeithiol o fewn y FfGY • Rhannu strategaethau i helpu ysgolion i ddangos pa mor dda y maent yn llwyddo • Rhannu arferion effeithiol o ran mesur a chofnodi cynnydd disgyblion • Meddwl am ffyrdd i sefydlu a chynnal diwylliant ble mai cynnydd a lles disgyblion yw'r prif flaenoriaeth. 6. Datblygu dull ysgol gyfan ar gyfer y Fframwaith Gwella Ysgolion • Myfyrio ar yr 8 ffactor cyfrannol sy'n disgrifio'r nodweddion allweddol a fydd gan ysgolion sy'n llwyddo i wireddu'r cwricwlwm. • Ystyried y strategaethau a'r sgiliau arwain sydd eu hangen i fynd ati'n effeithiol i ddatblygu diwylliant o welliant ysgol gyfan • Ystyried ffyrdd i sicrhau bod yr holl staff yn atebol am wella'r addysgu, y cwricwlwm a lles a chynnydd disgyblion. • Meddwl am gryfderau ac adnabod y camau nesaf ar gyfer datblygu mewn perthynas ag Arweinyddiaeth a Gwella Ysgolion			
Dyddiad:	I'w gadarnhau			

Profiad Addysg Cadarnhaol i Bawb





CODI CYRHAEDDIAD POBL IFANC DDIFREINTIEDIG (RADY)

Addas ar gyfer:	Arweinwyr ysgolion (pob sector)
Disgrifiad:	Rhaglen ar sail tystiolaeth i Uwch Arweinwyr fynd ati'n effeithiol i gefnogi a chodi cyrhaeddiad pobl ifanc ddifreintiedig. (GwE wedi cael datganiadau o ddiddordeb)
Deilliannau:	Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth well ynghylch sut i wella deilliannau i ddysgwyr bregus
Dyddiad:	Parhaus o fis Tachwedd 2023

HYFFORDDIANT YSGOLION SY'N WYBODUS AM DRAWMA I UWCH ARWEINWYR (TIS UK)

Addas ar gyfer:	Arweinwyr ysgolion (pob sector)
Disgrifiad:	Cyflwyniad i uwch arweinwyr ar effaith trawma a sut i ddatblygu ymwybyddiaeth eich ysgol o arferion bod yn wybodus am drawma.
Deilliannau:	Datblygu dealltwriaeth gynyddol o effaith trawma a sut i gefnogi dysgwyr yn yr ysgol.
Dyddiad:	Tymor y Gwanwyn 2024

DIPLOMA YSGOLION SY'N WYBODUS AM DRAWMA (TIS UK)

Addas ar gyfer:	Arweinwyr ysgolion/Arweinwyr canol/Ymarferwyr o bob sector
Disgrifiad:	Rhaglen Estynedig ar Drawma sy'n arwain at ddiploma i'r ymarferydd fel y gall arwain ar strategaeth ar gyfer trawma yn effeithiol yn yr ysgol/sefydliad.
Deilliannau:	Datblygu dealltwriaeth gynyddol o effaith trawma a sut i gefnogi dysgwyr yn yr ysgol.
Dyddiad:	Mis Medi 2023 ac ail hanner tymor y Gwanwyn 2024

CHWARAE TYWOD MEWN TRÊ (KP EDUCATION)

Addas ar gyfer:	Arweinwyr o bob sector
Disgrifiad:	Hyfforddiant i athrawon ac/neu gymorthyddion dosbarth ar ddefnyddio therapi chwarae tywod mewn trê i gefnogi dysgwyr bregus
Deilliannau:	Datblygu strategaethau ychwanegol i gefnogi dysgwyr bregus drwy chwarae.
Dyddiad:	Hydref 2023



CODI CYRHAEDDIAD POBL IFANC DDIFREINTIEDIG (RADY)

Addas ar gyfer:	Clystyrau/Cynghreiriau
Disgrifiad:	Gall ysgolion wneud cais i ymuno â'r rhaglen RADY fel Clwstwr neu Gynghrair. Hyfforddir arweinwyr i gydweithio ar y cymorth cyson a roddir i ddysgwyr bregus ym mhob ysgol yn eu clwstwr/cynghrair.
Deilliannau:	Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth well ynghylch sut i wella deilliannau i ddysgwyr bregus ar draws y clwstwr neu'r gynghrair
Dyddiad:	Parhaus o fis Tachwedd 2023

SUT YDYM NI'N HWYLUSO DYSGU ANNIBYNNOL I DDISGYBLION AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL CYMHLETH?

Addas ar gyfer:	Athrawon Ysgolion Arbennig, Athrawon Canolfannau Adnodd, Cydlynwyr ADY a staff cymorth.
Disgrifiad:	Yn y gweithdy hwn caiff ymarferwyr strategaethau ymarferol ar gyfer datblygu dysgu annibynnol a hybu hyn gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth yng nghyd-destun Ar Drywydd Dysgu a Cham Cynnydd 1.
Deilliannau:	- Bydd gan ymarferwyr gasgliad o syniadau i lunio pecyn cymorth o strategaethau er mwyn hybu dysgu annibynnol ar draws y cwricwlwm gyda dysgwyr yng nghyd-destun Ar Drywydd Dysgu a hyd at, ac yn cynnwys, Cam Cynnydd 1. - Gallu adnabod rhwystrau i ddysgu annibynnol yn effeithiol, a sut y gellir eu goresgyn trwy weithio mewn ffordd amlddisgyblaethol.
Dyddiad:	29/11/2023


MIKE GERSHON – LAWNSIO ADNODDAU AWTISTIAETH

Addas ar gyfer:	Athrawon, CADY, Athrawon Canolfannau Adnodd a Chynorthwyywyr Dysgu
Disgrifiad:	Bydd Mike Gershon yn lansio set o Adnoddau a ddyluniwyd i gefnogi athrawon dosbarth cynradd ac Uwchradd prif ffrwd sy'n addysgu un neu fwy o ddysgwyr awtistig o fewn darpariaeth gyffredinol.
Deilliannau:	Helpu a chefnogi athrawon dosbarth prif ffrwd i ddeall awtistiaeth yn well a'r ffordd orau o gefnogi dysgwyr awtistig yn eu dosbarthiadau.
Dyddiad:	15/01/23, 16/01/23 a 17/01/23



BUDDSODDWYR MEWN TEULUOEDD	
Addas ar gyfer:	Pob ysgol
Disgrifiad:	• Cynllun cenedlaethol sydd yn cydnabod ac yn dathlu ysgolion a lleoliadau eraill sy'n ymroi i weithio efo teuluoedd a'r gymuned ehangach i wella deilliannau i blant. • Cynnig fframwaith i ysgolion ddatblygu dull ysgol gyfan o weithio efo teuluoedd. • Helpu ysgolion i werthfawrogi a chefnogi'r rôl bwysig sydd gan deuluoedd ym mywyd y plentyn. • Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac ymdeimlad o ffynnu trwy chwarae rhan gadarnhaol yn addysg y plentyn. • Cynnig strwythur i ysgolion ddangos eu hymrwymiad i agenda Gweithredu'r Hawliau.
Deilliannau:	• Rhieni yn ymgysylltu'n well ag addysg y plentyn • Disgyblion yn cyflawni'n well a cheir gwell presenoldeb • Cymuned ysgol fwy cadarnhaol a chefnogol • Partneriaethau cryfach rhwng ysgolion a theuluoedd • Amgylchedd ysgol fwy cynhwysol a theg Sut gall Buddsoddwyr mewn Teuluoedd helpu i ddatblygu dull o weithio fel ysgolion cymunedol • Trwy annog ysgolion i ddatblygu dull ysgol gyfan o weithio efo teuluoedd gall Buddsoddwyr mewn Teuluoedd helpu i ddymchwel rhwystrau rhwng yr ysgol a'r gymuned. • Trwy helpu ysgolion i werthfawrogi a pharchu'r amrywiaeth a geir yn nheuluoedd yr ysgol gall Buddsoddwyr mewn Teuluoedd helpu i greu cymuned ysgol fwy cynhwysol a chroesawgar. • Trwy gynnig fframwaith i ysgolion weithio efo teuluoedd ar ystod o faterion gall Buddsoddwyr mewn Teuluoedd helpu i gefnogi datblygiad holistaidd y plentyn.
Dyddiad:	I'w gadarnhau

Y Gymraeg





HUNANWERTHUSO'R GYMRAEG A GOSOD CYFEIRIAD STRATEGOL

Addas ar gyfer:	Arweinwyr ysgolion o bob sector
Disgrifiad:	Bydd y Dysgu Proffesiynol hwn yn: - Cefnogi arweinwyr i fyfrio ac adnabod darpariaeth a fydd yn newid o ran cyfrwng er mwyn cefnogi twf y Gymraeg - Cefnogi arweinwyr i osod cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu'r Gymraeg. - Adnabod y gweithlu fydd angen cefnogaeth i gefnogi'r newid mewn cyfrwng ar agweddau ar y cwricwlwm gan godi ymwybyddiaeth o'r llwybr posib ar gyfer datblygu'r gweithlu i ddatblygu sgiliau iaith ymarferwyr (sector cyfrwng Saesneg) a datblygu medrau arwain (sector cyfrwng Cymraeg) fel mae angen. - Codi ymwybyddiaeth o adnodd cenedlaethol a lleol ar gyfer gwerthuso'r Gymraeg.
Deilliannau:	- Datblygu ymwybyddiaeth gadarn o'r disgwyliadau sydd ynghlwm â'r Gymraeg fel elfen fandadol o'r Cwricwlwm i Gymru. - Datblygu ymwybyddiaeth gadarn o le'r Gymraeg mewn dyluniad cwricwlwm a'r newid mewn cyfrwng sydd ei angen er mwyn dangos cyfraniad tuag at y targed Miliwn o Siaradwyr. - Cefnogi ysgolion i sicrhau cynnydd yn nifer y disgyblion sydd yn cael mynediad i addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. - Cefnogi ysgolion i sicrhau llwybr clir o ddatblygiad cynnydd cyfrwng wedi ei fapio ar hyd y continwwm categoreiddio. - Meddu ar gefnogaeth er mwyn datblygu strategaeth glir ar gyfer dyfnhau a datblygu darpariaeth ar gyfer y Gymraeg. - Datblygu dealltwriaeth o sut i sicrhau ethos Gymreig yn yr ysgol sy'n weladwy ac yn rhan greiddiol o fywyd dydd i ddydd - Datblygu ymwybyddiaeth gynyddol o gefnogi dysgwyr i fod â gfael gadarnach ar Gymraeg sylfaenol.
Dyddiad:	Rhagfyr 2023 / Mai 2024

RHAGLEN GENEDLAETHOL ARWEINWYR Y GYMRAEG MEWN YSGOLION CYFRWNG SAESNEG

Addas ar gyfer:	Arweinwyr Canol ysgolion Cynradd cyfrwng Saesneg
Disgrifiad:	Rhaglen genedlaethol i gefnogi arweinwyr y Gymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg - sesiwn 0.5 diwrnod rhithiol. Yn ystod y sesiwn bydd cyfle i arweinwyr: - ystyried pa elfennau sydd angen sylw wrth gynllunio'n strategol ac arfarnu darpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg - myfrio ar daith eich ysgol er mwyn datblygu ethos a gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg fel elfen fandadol o'r cwricwlwm



	ystyried pa Ddysgu Proffesiynol ac adnoddau sydd ar gael er mwyn cefnogi'r daith
Deilliannau:	- Datblygu gwybodaeth briodol ar gyfer cynnwys y Gymraeg mewn cynlluniau strategol er mwyn cynyddu darpariaeth a gwireddu gweledigaeth yr ysgol. - Datblygu dealltwriaeth o'r angen i gynllunio ar gyfer datblygu medrau ieithyddol y gweithlu er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg. - Datblygu ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd Dysgu Proffesiynol sydd ar gael i gefnogi taith yr ysgol - Datblygu ymwybyddiaeth o arferion llwyddiannus wrth werthuso'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu a chynllunio'n fwriadus ar gyfer cynyddu darpariaeth yr ysgol ar gyfer y Gymraeg.
Dyddiad:	Hydref 2023

CEFNOGAETH I DDATBLYGU DARLLEN

Addas ar gyfer:	Clystyrau
Disgrifiad:	Darparu cefnogaeth clwstwr/rhwydwaith/gweithdai/hyfforddiant sy'n rhoi lle blaenllaw i wella addysgeg, gwybodaeth ddisgyblaethol a strategaethau i gefnogi datblygiad darllen.
Deilliannau:	- Datblygu ymwybyddiaeth o arfer gydweithredol strategol effeithiol ar gyfer datblygu darllen a chreu diwylliant o ddarllen er pleser. - Datblygu ymwybyddiaeth a manteisio ar sgiliau ac arferion effeithiol o fewn clystyrau gan rannu'n ehangach gyda lleoliadau eraill.
Dyddiad:	Ar gais yr YCG

YSGRIFENNU ESTYNEDIG – 8 I 11

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr Cynradd
Disgrifiad:	Gweithdai sy'n rhoi sylw i ddatblygu sgiliau sylfaenol gan gynnwys y camau bach ar gyfer datblygu ysgrifennu estynedig er mwyn sicrhau cynnydd mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru
Deilliannau:	Bydd arweinwyr llythrennedd ac athrawon yn gallu cynllunio ar gyfer adeiladu ar sgiliau sylfaenol y dysgwyr a'r camau bach sy'n rhan o ddatblygu ysgrifennu estynedig ac yn sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd parhaus yn eu medrau ysgrifennu.
Dyddiad:	Ar gais yr YCG



DATBLYGU SGILIAU IAITH CYMRAEG YMARFERWYR

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr o bob sector
Disgrifiad:	Cefnogi arweinwyr ac ymarferwyr o'r ddarpariaeth sydd ar gael er mwyn cael y ddealltwriaeth o lefelau sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu (y defnydd o gyfrifiad y gweithlu/fframwaith cymwyseddau iaith ayyb) gan gyfeirio at y ddarpariaeth sydd ar gael yn yr ysgol a thu hwnt.
Deilliannau:	- Datblygu ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael er mwyn datblygu sgiliau iaith y gweithlu - Cefnogaeth i ysgolion er mwyn cynyddu y nifer o ddisgyblion sydd yn cael mynediad at y Gymraeg
Dyddiad:	Amrywiol – ar gael drwy Consortia Addysg Cymru - Cymraeg (google.com)

CYNLLUNIAU CLWSTWR – GRANT Y GYMRAEG

Addas ar gyfer:	Clystyrau
Disgrifiad:	Cefnogi cydlynwyr iaith pob clwstwr er mwyn llunio cynllun ar gyfer cefnogi datblygiad y Gymraeg ac i hybu cyd-weithio cynradd ac uwchradd (mewn cydweithrediad â Swyddogion Awdurdodau a GwE) Bwriadau: - Hwyluso cyfarfodydd clwstwr a chefnogi cynlluniau i ddatblygu darpariaeth y Gymraeg yn yr ysgolion clwstwr - Datblygu rhaglen ddysgu broffesiynol i sicrhau bod y gweithlu addysg yn cael y cyfle i wella eu sgiliau iaith Gymraeg yn barhaus - Datblygu rhaglen ddysgu proffesiynol i ddarparu strategaethau addysgu Cymraeg effeithiol - Sicrhau cyd-weithio a chyd-gynllunio cynradd ac uwchradd er mwyn rhoi lle blaenllaw i'r Gymraeg wrth drosglwyddo. - Sicrhau cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol (Siarter Iaith / Cymraeg Campus) Bydd pob clwstwr yn rhannu astudiaeth achos o weithredu effeithiol ac effaith y gwaith.
Deilliannau:	- Cefnogaeth i gydlynwyr iaith pob clwstwr i hybu cydweithio effeithiol ymysg ysgolion cynradd ac uwchradd, yn arwain at rannu arferion llwyddiannus ar draws y rhanbarth - Datblygu ymwybyddiaeth o sut i wneud defnydd effeithiol o gyllid drwy gynlluniau sy'n ymateb i anghenion y clwstwr (datblygu ymarferwyr, datblygu addysgeg a'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg). - Datblygu ymwybyddiaeth o fodelu effeithiol i gefnogi cydlynwyr wrth gynllunio ar gyfer eu cam nesaf - Cefnogi cydlynwyr i drafod Y Gymraeg fel rhan o brosesu trosglwyddo o un cyfnod i'r nesaf e.e. cynradd i'r uwchradd
Dyddiad:	Parhaus



CARIAD@DDARLLEN - DATBLYGU'R MWYNHAD O DDARLLEN

Addas ar gyfer:	Clystyrau
Disgrifiad:	Cefnogaeth fesul clwstwr i sefydlu rhwydwaith er mwyn datblygu cyd-weithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd ffocws benodol ar ddatblygu a gwreiddio'r ddarpariaeth ar gyfer darllen a hybu'r mwynhad o ddarllen.
Deilliannau:	- Datblygu ymwybyddiaeth sut i ddatblygu ethos a hinsawdd dosbarth/ysgol ar gyfer hybu mwynhad o ddarllen a'r ddarpariaeth sy'n hybu hynny. - Datblygu ymwybyddiaeth a manteisio ar waith ymchwil ac arferion effeithiol. - Cefnogaeth er mwyn sicrhau prosesau cynllunio pwrpasol i ddatblygu medrau darllen ar draws y MDaPh gan gyfrannu at codi safonau darllen yn gyffredinol.
Dyddiad:	Rhagfyr 2023 a Mawrth 2024

CYFUNO SGILIAU DIGIDOL A LLYTHRENNEDD AR DRAWS Y CWRICWLWM

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr Cynradd ac Uwchradd
Disgrifiad:	Mae creu fideo yn ddull effeithiol o gyflwyno gwybodaeth mewn ffordd sy'n ddiddorol i'r gynulleidfa ac yn dechneg all gael ei defnyddio mewn unrhyw faes dysgu a phrofiad. Byddwn yn archwilio'r cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd i gyfoethogi'r tasgau dan sylw. Yn ystod yr hyfforddiant hwn, byddwn yn canolbwyntio ar yr agweddau canlynol: Prosesau cynllunio sy'n datblygu sgiliau digidol a llythrennedd - Technegau animeiddio - Recordio sain i greu effaith - Technegau creu ffilm - Strategaethau llafaredd i ddyfnhau ansawdd yr iaith - Gwerthuso cynrychiadau er mwyn gwella sgiliau a myfyrio ar safon eu gwaith - Cynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr
Deilliannau:	- Datblygu dealltwriaeth gynyddol o sut i defnyddio gwaith ffilm fel dull o gyflwyno gwybodaeth. - Datblygu ymwybyddiaeth gynyddol o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau llafaredd trwy gyfryngau digidol. - Cefnogi ymarferwyr i ddatblygu cynrychiadau o ansawdd uchel sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr ehangu eu sgiliau a sicrhau cynnydd da ym medrau llafar dysgwyr. - Datblygu ymwybyddiaeth o sut all greu ffilm fod yn dechneg sy'n cael ei defnyddio'n effeithiol i gyfathrebu gwybodaeth ar draws y cwricwlwm.
Dyddiad:	??

RHAGLEN EIN LLAIS NI - 'DATBLYGU SIARADWYR Y DYFODOL'

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr o bob sector mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog
Disgrifiad:	Mae datblygu medrau siarad a gwrando effeithiol yn hanfodol ar gyfer mynediad i holl gwricwlwm yr ysgol ac yn sgil gydol oes. Drwy roi bri ar gyfathrebu'n dda efo'n gilydd a gwerthfawrogi bod gan bawb lais, bydd dysgwyr yn datblygu mewn hyder a lles, yn adeiladu perthnasoedd cadarnhaol ac yn dyfnhau eu dealltwriaeth ar gyfer dysgu. Drwy raglen Ein Llais Ni mae ysgolion yn: • datblygu'r hinsawdd a'r amodau ar gyfer sicrhau cynnydd amlwg yn y medrau hyn • annog dysgwyr i gyfrannu'n hyderus tuag at drafodaethau pwrpasol • caniatáu i ddysgwyr fyfyrar ar ansawdd eu sgiliau siarad a gwrando • cynllunio ar gyfer defnyddio strategaethau pwrpasol • defnyddio technoleg ddigidol i atgyfnerthu'r addysgu a'r dysgu. Mae'r rhaglen yn cynnig canllawiau, adnoddau, enghreifftiau gan ysgolion yn ogystal â chefnogaeth ar gyfer arwain y maes yn llwyddiannus er mwyn gweld effaith hir-dymor. Bydd hynny drwy gyfres o rwydweithiau yn ystod y flwyddyn. Darperir gefnogaeth ychwanegol ar gais ysgolion unigol a/neu glystyrau sy'n rhoi lle blaenllaw i ddatblygu llafaredd y Gymraeg (drwy YCG)
Deilliannau:	• Bod yn ymwybodol o ddeunydd ymchwil ac arferion da sy'n arfogi drwy strategaethau amrywiol i ddatblygu hyder a mwynhad dysgwyr wrth siarad Cymraeg. • Cefnogaeth i sicrhau cyfleoedd mwy niferus i ddysgwyr gael trafod (datblygu sgiliau siarad a gwrando) a datblygu eu dealltwriaeth o ddisgwyliadau mewn trafodaethau grŵp. • Datblygu dealltwriaeth gynyddol o nodweddion addysgu llafaredd effeithiol (yn cynnwys amgylchedd ddysgu gynhaliol i ddatblygu sgiliau siarad a gwrando effeithiol, cynllunio pwrpasol er mwyn datblygu sgiliau siarad a gwrando ar draws MDaPh) • Datblygu ymwybyddiaeth sut i gefnogi dysgwyr i fod yn gynyddol hyderus wrth siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol ac annog dysgwyr tawedog i fod yn fwy parod i gyfrannu ar lafar.
Dyddiad:	24/10/2023

EIN LLAIS NI - TARGEDU LLAFAREDD FEL BLAENORIAETH YSGOL GYFAN

Addas ar gyfer:	Arweinwyr ysgolion o bob sector
Disgrifiad:	Bydd y Dysgu proffesiynol hwn yn codi ymwybyddiaeth o wefan 'Ein Llais Ni' fel adnodd ar gyfer hyrwyddo sgiliau llafaredd. Bydd yn cefnogi arweinwyr i hunan werthuso llafaredd fel rhan o ddull ysgol gyfan ac i osod cyfeiriad strategol ar gyfer cynnydd dysgwyr mewn medrau llafaredd

Deilliannau:	- Datblygu ymwybyddiaeth gadarn o'r disgwyladau sydd ynghlwm â'r Gymraeg fel elfen fandadol o'r Cwricwlwm i Gymru. - Datblygu ymwybyddiaeth o le'r Gymraeg yn nyluniad cwricwlwm a'r cyfraniad tuag at y targed Miliwn o Siaradwyr
Dyddiad:	Rhagfyr 2023 a Mai 2024

PROSIECT YMCHWIL EIN LLAIS NI - 'DATBLYGU SIARADWYR Y DYFODOL'

Addas ar gyfer:	Ymarferwyr Cynradd ac Uwchradd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg
Disgrifiad:	Prosiect ymchwil cydweithredol ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg er mwyn cynllunio i ddatblygu adnodd presennol 'Ein Llais Ni' (www.einllaisni.cymru). Bydd hyn yn cefnogi'r Fframwaith Cymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg. Bydd yr ysgolion sy'n rhan o'r ymchwil hwn yn: - treialu a mireinio strategaethau dysgu Cymraeg fel iaith ychwanegol sy'n hyrwyddo sgiliau siarad a gwrando dysgwyr - cydweithio gyda Phrifysgol Bangor er mwyn datblygu medrau ymchwil personol ar sail cyfeirlyfr 'O Enau Plant' - cyfrannu tuag at fodelu'r addysgu a dysgu sy'n berthnasol i ddatblygu'r Gymraeg yn y sector cyfrwng Saesneg
Deilliannau:	- Datblygu fel ymchwilwyr sy'n rhoi sylw pwrrpasol i ddatblygu addysgu'r Gymraeg a medrau siarad a gwrando'r dysgwyr. - Derbyn a chynnig cefnogaeth i ysgolion eraill ar ddefnydd effeithiol rhaglen Ein Llais ni - Datblygu gwybodaeth gynyddol er mwyn sicrhau darpariaeth ar gyfer y Gymraeg sy'n gyfoes, hwyliog, pwrrpasol a chynhaliol - Datblygu dealltwriaeth o sut i annog cynnydd yn awydd ac hyder ymarferwyr a dysgwyr yn eu defnydd o'r Gymraeg. - Datblygu ymwybyddiaeth ymarferwyr a dysgwyr o'r cyfleoedd a ddaw o siarad Cymraeg a manteision dwyieithrwydd.
Dyddiad:	Amh.

EIN LLAIS NI – CEFNOGAETH I GLYSTYRAU

Addas ar gyfer:	Clystyrau o ysgolion
Disgrifiad:	Cefnogaeth fesul clwstwr i sefydlu rhwydwaith er mwyn datblygu cyd-weithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd gyda'r ffocws ar wella'r ddarpariaeth ar gyfer medrau siarad a gwrando/llafaredd a llythrennedd
Deilliannau:	Bod yn ymwybodol o ddeunydd ymchwil ac arferion da sy'n arfogi drwy strategaethau amrywiol i ddatblygu hyder a mwynhad dysgwyr wrth siarad Cymraeg.

	• Cefnogaeth i sicrhau cyfleoedd mwy niferus i ddysgwyr gael trafod (datblygu sgiliau siarad a gwrando) a datblygu eu dealltwriaeth o ddisgwyliadau mewn trafodaethau grŵp. • Datblygu dealltwriaeth gynyddol o nodweddion addysgu llafaredd effeithiol (yn cynnwys amgylchedd ddysgu gynhaliol i ddatblygu sgiliau siarad a gwrando effeithiol, cynllunio pwrpasol er mwyn datblygu sgiliau siarad a gwrando ar draws MDaPh) • Datblygu ymwybyddiaeth sut i gefnogi dysgwyr i fod yn gynyddol hyderus wrth siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol ac annog dysgwyr tawedog i fod yn fwy parod i gyfrannu ar lafar.
Dyddiad:	Ar gais yr YCG

